

# Disgwyliadau Uwch

Craffu ariannol mewn cyfnod heriol



*accountability, transparency, involvement*



*atebolrwydd, tryloywder, cyfranoglad*



Grant Thornton

# Cynnwys

Rhagair **3**

Cefndir a chyflwyniad **4**

Beth sydd ar y gorwel i Gymru? **5**

Yr angen am graffu ariannol **9**

Pam mae'n rhaid i gynghorwyr gymryd rhan mewn craffu ariannol **17**

Deall rolau a chyfrifoldebau **21**

Craffu a chynllunio ariannol **26**

Craffu a rheolaeth ariannol **30**

Craffu a'r agenda effeithlonrwydd **34**

Cyfranogiad dinasyddion **37**

## Atodiadau

**A** Awgrymiadau da ar gyfer craffu ariannol effeithiol **43**

**B** Rhestr wirio holi effeithiol **44**

**C** Awgrymiadau da ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ariannol **46**

**D** Beth i chwilio amdano wrth adolygu gwybodaeth ariannol **46**

**E** Hyfforddi cynghorwyr ac asesu anghenion – arolwg enghreifftiol Cyngor Caerdydd **49**

Llyfryddiaeth **53**

## Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus

Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus yw'r sefydliad cenedlaethol blaenllaw ar gyfer syniadau, barn a chymhwysyo a datblygu polisi ac ymarfer i hybu gwasanaethau cyhoeddus tryloyw, cynhwysol ac atebol. Elusen annibynnol ydym ni, ac rydym yn cynorthwyo unigolion, sefydliadau a chymunedau i roi ein hegwyddorion ar waith wrth gynllunio, darparu a monitro gwasanaethau cyhoeddus mewn ffyrdd sy'n cynyddu gwybodaeth, sgiliau ac ymddiriedaeth fel bod datrysiadau effeithiol yn cael eu hamlygu ar y cyd gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

### Grant Thornton

Rydym ni wedi gweithio gyda'r sector cyhoeddus ers mwy na 30 mlynedd. Rydym ni'n gwasanaethu cyfran fawr o'r farchnad archwilio'r sector cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr, ac felly mae ein cleientiaid yn gwybod y gallant fanteisio ar gyfoeth o brofiad yn y sector sy'n rhychwantu llywodraeth leol a chanolog a'r GIG. Mae hyn yn golygu y gallwn ni wir werthfawrogi'r materion ehangach sy'n wynebu ein cleientiaid, yn ogystal â darparu datrysiadau a gwasanaethau sydd wedi'u gwreiddio yn y byd go iawn. Rydym ni hefyd yn defnyddio arfer gorau o bob rhan o'r sector er budd ein cleientiaid. Rydym ni'n darparu gwasanaethau archwilio, treth a chynghori i lywodraeth leol a chyrrff cysylltiedig ar draws y Deyrnas Unedig (DU), gan gynnwys bwrdeistrefi Llundain, cynghorau sir, cynghorau dosbarth, cynghorau dinas, awdurdodau unedol a metropolitan, yn ogystal ag awdurdodau tân, yr heddlu a pharciau cenedlaethol.

### Diolchiadau

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus a Grant Thornton yn ddiolchgar i aelodau canlynol y Grŵp Cynghori am eu cymorth wrth wneud y canllaw hwn yn bosibl:

Barrie Morris - Cyfarwyddwr, Grant Thornton LLP (y DU)

Julie Masci – Rheolwr Prosiect, Grant Thornton LLP (y DU)

Rebecca David-Knight – Rheolwr Rhaglen Craffu Cymru, y Ganolfan Craffu Cyhoeddus

Chris Tidswell - Pennaeth CIPFA Cymru

Mari Thomas – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Amanda Whittle – Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru


Mike Day – Cadeirydd Craffu, Cyngor Abertawe a chynrychiolydd aelodau ar y Panel Cynghori ar Graffu

Wyn Richards – Rheolwr Craffu, Cyngor Sir Powys a Chadeirydd y Rhwydwaith Swyddogion Craffu

Chris Moore, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, Cyngor Sir Caerfyrddin a chynrychiolydd Cymdeithas Trysorwyr Cymru

Huw Rees, Swyddfa Archwilio Cymru

Hoffai'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus a Grant Thornton ddiolch hefyd i'r awdurdodau hynny a grybyllwyd yn yr adroddiad a gynigiodd enghreifftiau o ymarfer: Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Swydd Buckingham a Chyngor San Helen.



Mae cyllid yn hollbwysig i'r gwasanaethau a ddarperir gan gynghorau, ac mae'r materion ariannol sy'n wynebu cynghorau yn effeithio ar bawb o ran y gwasanaethau y maent yn eu derbyn a'r trethi neu'r taliadau y maent yn eu talu. Wrth iddi fynd yn anoddach dod o hyd i'r lefelau angenrheidiol o arbedion trwy fesurau effeithlonrwydd, bydd angen i gynghorau feddwl yn ofalus am y dewisiadau sy'n eu hwynebu, gan ofyn cwestiynau anodd i'w hunain am ba wasanaethau i'w cynnig yn y dyfodol a pha un a yw dulliau hanesyddol o ddarparu'r gwasanaethau hynny'n dal i fod yn briodol. Ac, yn bwysicaf oll, sut gellir rheoli disgwyladau wrth wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol? Mae'r canllaw hwn yn cynnig cyngor ymarferol i swyddogion cyngor a chynghorwyr ar sut y gall craffu ychwanegu gwerth at gynllunio ariannol a rheolaeth ariannol. Fe'i hategir gan astudiaethau achos ynglŷn â sut mae eraill wedi rhoi craffu ariannol effeithiol ar waith. Man cychwyn yw'r canllaw a chrosawn sylwadau ar sut y gellid ei wella a'i ddatblygu. Rydym yn sylweddoli nad oes templed cyffredinol y gellir ei gymhwyso i bob cyngor, ond mae'r canllaw yn cynnwys egwyddorion cyffredinol ac awgrymiadau gan y rhai hynny sydd wedi bod ar y trywydd hwn o'r blaen neu sy'n teithio i'r un cyfeiriad.

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae angen i gynghorwyr wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, yn enwedig cyllid. Y cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn bob tro o safbwynt craffu yw 'sut gallwn ni ychwanegu gwerth?' Yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid i graffu allu dangos ei fod yn ychwanegu gwerth at bob cam o'r broses ariannol – mae'r broses o osod cyllideb ei hun, pennu blaenoriaethau ymhlith galwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, defnydd effeithiol o gyllid a sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd oll yn faterion allweddol. Mae craffu'n golygu mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau – mae'n ymwneud â gofalu bod penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar drethdalwyr a chymunedau lleol yn destun craffu priodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynllunio, eu gweithredu a'u dilyn yn effeithiol. Mae craffu'n wahanol iawn i archwilio: mae'r cyntaf yn darparu her effeithiol a'r ail yn gwneud yn siwr bod sicrwydd priodol ynglŷn â holl weithgareddau'r Cyngor, gan gynnwys y trefniadau craffu. Ond dylai cynghorau sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol rhwng y ddwy swyddogaeth. Mae'r ychydig flynyddoedd nesaf yn debygol o gyflwyno cyfle i reoli newid i sefydliadau o fath sylfaenol wahanol, yn hytrach nag adolygiad blynyddol o gyllidebau yn seiliedig ar dybiaethau tymor byr sy'n arwain at gyfres o doriadau digyswllt o flwyddyn i flwyddyn. Fe'ch anogwn i ddefnyddio'r canllaw i ysgogi trafodaeth yn eich cyngor ynglŷn â'r ffordd orau o roi'r egwyddorion ar waith.

**Jessica Crowe**, y Ganolfan Craffu Cyhoeddus

**Barrie Morris**, Cyfarwyddwr, Grant Thornton LLP (y DU)

Y Cynghorydd **Mike Day**, Cadeirydd y Pwyllgor Rhaglen Graffu, Dinas a Sir Abertawe

## Cefndir a chyflwyniad


---

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ar sut y gall swyddogaethau craffu cynghorau ychwanegu gwerth at reolaeth ariannol, gosod cyllidebau ac asesu canlyniadau mewn cynghorau, gan helpu i oresgyn rhwystrau, ac mae wedi'i ysgrifennu ar gyfer pob cynghorwr a phob swyddog llywodraeth leol a rhanddeiliad yn y sector. Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at gyhoeddiad presennol y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, sef "On the Money", a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2011, sy'n cynnwys gwersi perthnasol a throsglwyddadwy ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, yn enwedig o ystyried y cyd-destun o ostyngiadau sylweddol mewn cyllid.

Mae'r canllaw yn defnyddio arfer da presennol o lywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr i roi cyngor a syniadau ymarferol ynglŷn â sut y gall cynghorau sicrhau craffu ac atebolrwydd effeithiol o ran defnyddio arian cyhoeddus.

*“ Mae'n rhaid i bob aelod etholedig, aelod o fwrdd iechyd annibynnol, cyfarwyddwr anweithredol, a swyddog gydnabod pwysigrwydd a gwerth craffu wrth wella gwasanaethau i bobl a sefydliadau yng Nghymru. Mae'n rhaid i annibyniaeth craffu gael ei datgan a'i diogelu'n gryf, ynghyd â'i natur adeiladol a chadarnhaol. ”*

Y Comisiwn Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Ionawr 2014



# Beth sydd ar y gorwel i Gymru?

---

## Y sefyllfa o ran y Setliad Llywodraeth Leol a phwysau a ddisgwylir yn y dyfodol

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi datblygu cyfres o senarios cyllidol ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru hyd at 2025. Mae'r achos sylfaenol cyffredinol yn dangos y bydd cyllid refeniw datganoledig yn gostwng o £15.1 biliwn i £13.6 biliwn yn 2017-18, ac na fydd cyllid yn dychwelyd i lefelau 2010-11 tan 2022-23 ar y cynharaf. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai'n golygu saith mlynedd o gwtogi gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n gwbl wahanol i ddeng mlynedd cyntaf datganoli. Mae Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 wedi myfyrio ar y senarios cyllidol hyn ar gyfer y dyfodol hefyd. Roedd y datrysiadau a drafodwyd yn cynnwys mwy o wasanaethau rhanbarthol / a rennir, a chydgyhyrchu, ac ystyriwyd bod rôl cynghorwyr yn hollbwysig.

Yn sgil y Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2014-15, derbyniodd cynghorau yng Nghymru £4.26 biliwn mewn cyllid refeniw cyffredinol. Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, mae hyn 3.4% yn llai o gymharu â 2013-14. Rhagwelir y bydd cyllid y Setliad yn gostwng 1.5% arall yn 2015-16, ond mae hyn yn ddangosol iawn ac fe allai newid. Mae graddau'r gostyngiadau hyn mewn cyllid, ac effaith cynildeb ar gyllidebau cynghorau, yn creu heriau sylweddol i gynghorau gynnal gwasanaethau o ansawdd da sy'n darparu canlyniadau cryf trwy ffyrdd mwy effeithlon, arloesol a chydweithredol o weithio. Beth bynnag fo'r rhagolygon ariannol ar gyfer gwariant cyhoeddus yn y dyfodol, mae'r egwyddorion yn y canllaw hwn yn darparu sylfaen ar gyfer trefniadau craffu effeithiol gan gynghorau. Mae'r heriau presennol yn golygu bod craffu ariannol effeithiol yn hollbwysig. Maent hefyd yn gofyn bod cynghorwyr a swyddogion gweithredol yn ymgysylltu'n agored, ar gam cynnar, nid dim ond o fewn y cyngor ond gyda dinasyddion a rhanddeiliaid ehangach er mwyn amlygu datrysiadau i gyflawni canlyniadau ar gyfer cymunedau yn wyneb cyfyngiadau ar gyllid yn y dyfodol.

Dylai cynghorau sicrhau bod eu prosesau rheolaeth ariannol yn dryloyw a bod cynghorwyr yn cael digon o gyfle i dderbyn gwybodaeth ariannol mewn ffyrdd sy'n eu helpu i amlygu risgiau a gofyn cwestiynau (a disgwyl atebion) er mwyn deall datblygiad ac effaith cynigion cyllidebol ar ddarparu gwasanaethau yn eu cymunedau.

Dyma rai materion allweddol y mae angen eu hystyried: os cyrhaeddir y targedau heriol ar gyfer arbedion, beth fydd yr effaith ar wasanaethau i'r rhai hynny y mae eu hangen arnynt? Os na wireddir y targedau, beth fydd yr effeithiau cynyddol ar y gyllideb yn gyffredinol ac ar feysydd gwasanaeth eraill? A yw'r cyngor yn dysgu o brofiad mewn manau eraill o ran gwella effeithlonrwydd – er enghraifft trwy gomisiynu neu ddarparu ar y cyd; symleiddio swyddogaethau swyddfa gefn; a darparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd, megis trwy grwpiau cymunedol, partneriaethau newydd neu drosglwyddo gwasanaethau i gwmnïau cyfuddiannol a berchenogir gan weithwyr?

## Rôl newidiol craffu

Cyhoeddodd y Comisiwn Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ei adroddiad terfynol ar 20 Ionawr 2014. Un o'r materion a fu'n bwyslais allweddol ar gyfer yr adolygiad oedd "pa drefniadau, ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd, darparu a chraffu, fydd yn gallu cyflawni newid sylweddol mewn perfformiad ein gwasanaethau cyhoeddus a gwelliant parhaus ynddynt?"

---

Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu rhai heriau allweddol o ran craffu, ac nid lleiaf y rheiny a amlygwyd yn adroddiad y Comisiwn. Os bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn argymhellion yr adroddiad, byddant yn arwain at newid sylweddol yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf. Mae argymhellion yr adroddiad yn rhoi pwyslais mawr ar rôl craffu, gan ddatgan bod "craffu cyhoeddus yn fath penodol a hanfodol o atebolrwydd yn y sector cyhoeddus. Fe'i defnyddir amlaf i gyfeirio at swyddogaeth graffu ffurfiol awdurdodau lleol neu graffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU, ond rydym ni'n ymdrin â dehongliad ehangach. Gall craffu fod yn barhaus neu'n ad hoc, a naill ai wedi'i strwythuro o amgylch prosesau ffurfiol neu ddeialog fwy hyblyg" ac y bydd y strwythurau newydd a gynigir gan y Comisiwn "yn cyflawni dim heb y newidiadau ehangach a gynigiwn, er enghraifft i lywodraethu, craffu, atebolrwydd, arweinyddiaeth, diwylliant, gwerthoedd a rheoli perfformiad."

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar ymestyn swyddogaethau craffu cynghorau ar hyn o bryd trwy 'Orchymyn Personau Dynodedig' o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gynnwys mwy o sefydliadau megis Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Tân ac Achub, Byrddau Iechyd Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n bwriadu gwneud Byrddau Gwasanaethau Lleol yn statudol, cyflwyno toll ar gyfer partneriaid cynllunio cymunedol ar gyfer gwaith traws-sefydliadol a datblygu cynaliadwy, ac, o bosibl, caniatáu mwy o bwerau craffu. Gallai'r pwerau hyn ymestyn swyddogaethau craffu cynghorau i ymdrin â maes ehangach gwasanaethau cyhoeddus, gan osod dyletswyddau newydd ar gynghorau i graffu ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal.


### **Beth mae angen i graffu ganolbwyntio arno ar gyfer y dyfodol?**

Bydd gostyngiadau mewn cyllid yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y darperir gwasanaethau lleol yn y tymor canolig i'r tymor hir, a bydd angen i brosesau gwneud penderfyniadau gynnwys trefniadau ar gyfer her adeiladol. Bydd ystod eang o bartneriaid yn ymwneud â'r penderfyniadau hyn hefyd, sy'n golygu bod angen meddwl yn ddeallus am y ffordd y gall cynghorwyr weithio gyda swyddogion anweithredol eraill yn y sector cyhoeddus. Mae hefyd yn bwysig bod craffu'n canolbwyntio ar ganlyniadau tymor hwy yn hytrach nag arbedion tymor byr yn unig.

#### **Y tymor byr**

Yn y tymor byr, mae'n hanfodol datblygu cynllun effeithiol ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer flwyddyn ariannol nesaf ac unrhyw gamau y mae cynghorau'n eu cymryd i ymateb i'r sefyllfa ariannol yn ystod y deunaw mis nesaf. Dylai cynghorau adolygu eu dull o graffu ar gyllidebau a rheolaeth ariannol yn gyffredinol, er mwyn darparu sicrwydd bod craffu:

- yn cael ei gynnwys ar adegau allweddol wrth i'r gyllideb gael ei pharatoi – er enghraifft, cymysgedd o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth sy'n rhoi cyfle i gynghorwyr brofi tybiaethau, archwilio risgiau a herio blaenoriaethau;
- yn gallu cael mynediad at y broses ymgynghori cyhoeddus wrth i'r gyllideb gael ei datblygu – er enghraifft, defnyddio gwybodaeth o ymgynghoriadau cyhoeddus i ddylanwadu ar sut mae craffu'n mynd i'r afael â chynigion ar gyfer blaenoriaethau cyllidebol;
- yn gallu gweithredu fel canolbwynt ar gyfer trafodaethau ynglŷn â newidiadau mawr i wasanaethau;
- yn amlygu pwysau tymor hwy a allai godi o benderfyniadau tymor byr.



### Y tymor canolig

Materion tymor canolig yw'r rhai hynny sy'n ymwneud â helpu cynghorau, partneriaid a chymunedau lleol i reoli'r newid rhwng patrymau presennol o ddarparu gwasanaethau a phatrwm tebygol gwasanaethau y bydd cynghorau'n gallu darparu adnoddau ar ei gyfer erbyn 2020.

O ran rhai gwasanaethau, gallai hyn olygu y bydd angen i unigolion neu sefydliadau eraill gyflawni rôl gryfach i gynnal gwasanaethau os na all cynghorau ddarparu cyllid. Mae cyfle ar gael i graffu gyflawni swyddogaeth fwy creadigol yn y cyd-destun hwn, er enghraifft:

- Amlygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â datgomisiynu gwasanaethau fel y gellir cynnal trafodaeth gyhoeddus ystyrlon a rhesymegol;
- Darparu cyfrwng amhleidiol ar gyfer trafod, fel bod cynghorau a phartneriaid yn cael arweiniad eglur ynglŷn â safbwyntiau a dyheadau'r cyhoedd;
- Sicrhau dull strategol a thymor hir o ad-drefnu gwasanaethau ar raddfa fawr, gan ystyried ffactorau allanol (megis yr effaith bosibl ar wasanaethau gofal iechyd aciwt neu ofal cymdeithasol os caiff cefnogaeth ar gyfer ymyriadau cynnar ei dileu);
- Canolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau at y dyfodol er mwyn iddynt allu gwrthsefyll newidiadau yn y dyfodol a allai arwain at leihau cefnogaeth ganolog yn sylweddol;
- Gwrthsefyll y demtasiwn i barhau i wneud toriadau tameidiog yn hytrach na defnyddio technegau gwerth cymdeithasol i lywio penderfyniadau am gyllidebau;
- Darparu amgylchedd adeiladol ar gyfer trafodaethau rhesymegol, manwl a chyhoeddus ymhlith gwleidyddion ynglŷn â newidiadau, gan dawelu natur ddadleuol llawer ohonynt;
- Herio tybiaethau ynglŷn â gwasanaethau a rennir a threfniadau comisiynu, yn enwedig os yw trefniadau'n creu risg o gloi methiant i mewn, ar ffurf tybiaethau ynglŷn â gwariant ac incwm yn y dyfodol a allai fod yn anghywir yng nghyd-destun sefyllfa anrhagweladwy o ran cyllid;
- Ystyried a yw trefniadau cynhyrchu incwm yn dangos digon o uchelgais, ac a roddwyd ystyriaeth resymol i syniadau newydd a chreadigol;
- Ystyried a yw dewisiadau realistig yn bodoli i roi gwasanaethau o'r neilltu neu eu cwtogi, gan ddisgwyl sefyllfa well o ran cyllid yn y dyfodol;
- Ystyried effeithiau newidiadau mawr ar bartneriaid a chyflenwyr, a'r effaith ar yr economi leol yn fwy cyffredinol;
- Ystyried ffyrdd newydd o strwythuro a sicrhau cyllid gan fuddsoddwyr cymdeithasol neu fasnachol trwy ddefnyddio Bondiau Effaith Gymdeithasol i wella canlyniadau cymdeithasol ac arloesi mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus;
- Sicrhau bod modelau darparu amgen ar gyfer darparu gwasanaethau yn cael eu cymharu'n effeithiol â dulliau darparu presennol.

### Y tymor hir

Dylai craffu fod yn cyflawni swyddogaeth o ran archwilio ffurf bosibl gwasanaethau cyhoeddus ar ôl 2020. Gallai rhai materion allweddol i'w hystyried gynnwys:


- 
- Beth fydd newidiadau demograffig yn ei olygu i wasanaethau cynghorau yn yr 2020au?
  - Beth fydd pobl leol yn ei ddisgwyl gan wasanaethau'r cyngor yn ystod y degawd nesaf?
  - Beth yw'r ffordd orau i gynghorau a phartneriaid weithio gyda'i gilydd i fodloni'r disgwyliadau hyn?
  - Pa rôl y bydd cynghorwyr yn ei chyflawni os bydd mwy o wasanaethau lleol yn gweithredu y tu allan i reolaeth y cyngor, neu os na chânt eu darparu o gwbl?
  - A fydd unrhyw un yn darparu gwasanaethau y mae'r cyngor yn rhoi'r gorau i'w cynnal? Sut gall cynghorau gefnogi trosglwyddiad a fydd mor hwylus â phosibl o dan yr amgylchiadau?
  - A fydd penderfyniadau a wneir yn awr yn ei gwneud hi'n fwy anodd mynd i'r afael â'r materion hyn yn y dyfodol?
  - Sut gall cynghorwyr helpu i ddatblygu dyhead a chydnerthedd cymunedol yn wyneb toriadau cyllid?

### **Pa mor barod yw cynghorau ar gyfer yr heriau hyn?**

Gallai dull amhleidiol craffu gael ei herio yn y sefyllfaoedd hyn, gan y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd am ddarparu gwasanaethau, ond gall craffu ddarparu fforwm niwtral ar gyfer y trafodaethau hyn, gan gynnig pont rhwng pobl leol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae gan uwch swyddogion ac aelodau cabinet gyfle i fabwysiadu dull tryloyw a chynhwysol o sicrhau bod craffu'n archwilio'r dewisiadau ar gyfer newid, yn hytrach na rhoi cynlluniau at ei gilydd yn breifat. Gall craffu arwain y broses hon, ac fe ddylai wneud hynny. Mae'n bosibl na fydd cynghorau sy'n llunio ymgynghoriadau a arweinir gan swyddogion gweithredol ar y newidiadau hyn yn gallu dangos cyfranogiad cyhoeddus dilys.

Gall craffu brofi tybiaethau y bydd datrysiadau rheoli traddodiadol yn mynd i'r afael â heriau ac fe all helpu i ddatblygu arloesedd mewn cyfranogiad cyhoeddus.





# Yr angen am graffu ariannol

---

## Sut gall craffu ariannol ychwanegu gwerth?

Mae adolygu a chymeradwyo'r gyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol eraill gan y cabinet yn darparu cyfreithlondeb democrataidd, ond ni all gyflawni swyddogaeth graffu annibynnol. Canfu'r Adolygiad o Lywodraethu Llywodraeth Leol a gynhaliwyd gan Grant Thornton yn 2013 fod gan gynghorau lawer i'w wneud o hyd i brofi bod swyddogaethau craffu'n effeithiol – dywedodd 40% o arweinwyr cynghorau nad oedd eu swyddogaeth graffu'n arddangos y gwerth y mae'n ei ychwanegu.

Gallai cyflwyno colofnau a thablau o ffigurau i gynghorwyr greu diffyg hyder yn eu gallu i graffu ar reolaeth ariannol. Fodd bynnag, diben craffu ariannol yn y pen draw yw profi sut mae cynghorau'n gwneud dewisiadau am ddyrannu adnoddau a pha mor dda y defnyddir adnoddau i gyflawni amcanion polisi.

Mae cynghorau'n wynebu ansicrwydd sylweddol o ran rheoli eu cyllid. Gall pethau fynd o chwith yn rhwydd a, phan fydd hynny'n digwydd, gall ymdrechion i ddatrys y sefyllfa ychwanegu at y problemau weithiau – er enghraifft, mae'n bosibl na fydd galw'r gyllideb i mewn ar frys, trafodaeth wleidyddol annisgybledig a chynnig cyllidebau eraill yn fuddiol o ran sicrhau datrysiadau effeithiol. Gallai ffactorau annisgwyl hwyr sy'n effeithio ar berfformiad ariannol ddeillio o broses cyllidebol nad yw'n ddigon cadarn, gan arwain at gydnerthedd ariannol gwael. Mewn cyferbyniad, dull systematig o ymdrin â chraffu ariannol yw un o seiliau hanfodol llywodraethu a rheolaeth ariannol cadarn.

Mae craffu'n rhoi cyfle i gynghorwyr gamu'n ôl ac ystyried y berthynas rhwng costau a pherfformiad. Gall manylrwydd y broses gyllidebu flynyddol hoelio'r sylw ar ymdrin â gostyngiadau mewn cyllid heb lawn werthfawrogi'r effaith ar flaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau a thargedau perfformiad. Gallai torri costau gyflawni elw ariannol tymor byr a chyllideb gytbwys, ond fe allai gael effaith ar ganfyddiad dinasgyddion a chyflawni amcanion gwella, a fydd yn cronni costau ar gyfer y dyfodol.

Mae Adolygiad Llywodraethu Llywodraeth Leol 2014 Grant Thornton yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol lle y gall craffu gyflawni swyddogaeth bwysig:

- Arweinyddiaeth o ran risgiau: sefydlu agwedd o'r brig i lawr sy'n ystyried risgiau fel cyfleoedd yn ogystal â bygythiadau, ac sy'n annog arloesi yn ogystal â rheoli problemau posibl – gall craffu gyfrannu'n sylweddol at feithrin diwylliant o'r fath trwy weithredu fel 'cyfaill beirniadol' effeithiol;
- Partneriaethau a modelau darparu amgen: gweithredu trefniadau llywodraethu cadarn a chymesur ar gyfer modelau newydd o ddarparu gwasanaethau, er mwyn cynnal atebolrwydd heb rwystro arloesedd – gall craffu gyfrannu trwy sicrhau trefniadau ar gyfer llywodraethu effeithiol.

Mae Grant Thornton wedi cynnal trafodaethau helaeth ar draws llywodraeth leol ynglŷn â'r heriau ariannol sy'n ei hwynebu, ac mae wedi amlygu ystod o sefyllfaoedd 'pwynt argyfwng' a allai beri i gyllid cynghorau fynd yn anhydrin. Un o swyddogaethau allweddol craffu yw bod yn effro i arwyddion sy'n awgrymu bod unrhyw un o'r sefyllfaoedd isod yn datblygu:

---

## Sefyllfa pwynt argyfwng

## Disgrifiad

---

### Parlys o ran gwneud penderfyniadau

Mae cynghorau'n methu â gwneud penderfyniadau sy'n angenrheidiol i reoli heriau ariannol a heriau eraill. Mae hyn wedi'i amlygu fel 'pwynt argyfwng' a allai fod yn drosfwaol.

---

### Statudol

Nid yw cynghorau'n gallu cyflawni cyfrifoldebau statudol i ddarparu ystod eang o wasanaethau gyda'r cyllid sydd ar gael, gan arwain at heriau cyfreithiol a phrotestiadau gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

---

### Ariannol

Nid yw swyddogion Adran 151 yn gallu gosod cyllidebau cytbwys, gan arwain at adroddiad cyllideb anghytwys yn unol ag Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Cymru a Lloegr); neu lle mae ansicrwydd yn arwain at orwariant cyllidebol sy'n lleihau cronfeydd wrth gefn i lefelau annerbyniol o isel; neu lle mae cynghorau'n arddangos nodweddion sefydliad methdaliadol, megis methiant i dalu credydwy.

---

### Diwydiannol

Mewn ymateb i ffrwyno cyflogau, newidiadau i delerau ac amodau a cholli swyddi, mae gweithwyr ac undebau llafur yn cymryd camau gweithredu diwydiannol hirfaith, sy'n tarfu ar wasanaethau'n sylweddol ac yn arwain at anghydfodau cysylltiadau diwydiannol tymor hir.

---

### Allanol

Mae cyflenwyr mawr yn methu, sy'n tarfu'n sylweddol ar wasanaethau ac yn niweidio enw da'r cyngor.

---

### Cynyddol

Mae methiannau lluosog, llai, mewn meysydd gwasanaeth unigol yn arwain at fâs critigol o 'bwyntiau argyfwng' yn y pen draw.

---

### Milwriaethusrwydd

Mae cynghorau'n anwybyddu neu'n herio rhwymedigaethau statudol.

---

### Aflonyddwch sifil

Mae toriadau i wasanaethau'n cyrraedd y fath raddau fel bod anfodlonrwydd defnyddwyr yn arwain at aflonyddwch sifil helaeth sy'n effeithio ar barhad busnes a chydnerthedd cynghorau.

---

### Dydd y Farn

Mae argyfwng bancio/ariannol arall yn arwain at lefelau hyd yn oed yn fwy o gynildeb, a hynny dros gyfnod sylweddol hwy.

---


Ffynhonnell: '2016 tipping point? Challenging the current' (Grant Thornton, Rhagfyr 2013)

Yn ogystal â chynyddu tryloywder, mae craffu ariannol effeithiol yn gallu cael effaith go iawn ar benderfyniadau a chanlyniadau. Mae'r astudiaethau achos yn y canllaw hwn yn dangos sut gall craffu ariannol wneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae cynghorau'n gweithredu ac yn darparu eu gwasanaethau.

### Nodweddion craffu da

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi cynorthwyo Rhwydwaith Swyddogion Craffu Cymru i amlygu nodweddion craffu da yn nhermau:

- **Canlyniadau gwell** – sicrhau bod atebolrwydd democrataidd yn llwyddo i sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus



- **Penderfyniadau gwell** – sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn
- **Ymgysylltiad gwell** – sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu cynnwys yn ystyrllon mewn trafodaeth ddemocrataidd ynglŷn â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol.

### Canlyniadau gwell

#### dylai craffu gael:

- rôl a ddiffiniwyd yn eglur ac a werthfawrogir yn nhrefniadau gwella a llywodraethu'r cyngor
- cefnogaeth ymrwymedig gan swyddogion sy'n gallu ymgymryd ag ymchwil annibynnol yn effeithiol, a darparu dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i gynghorwyr

#### ac mae angen iddo:

- gynnal ymchwiliadau sy'n anwleidyddol, yn gadarn yn fethodolegol ac yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth a safbwyntiau
- herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau ar sail tystiolaeth
- darparu datrysiadau ymarferol a gefnogir gan dystiolaeth i broblemau cydnabyddedig.

### Gwell penderfyniadau

#### dylai cynghorau sicrhau:

- bod cynghorwyr craffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol
- bod y broses yn cael cefnogaeth effeithiol gan dîm rheolaeth gorfforaethol y cyngor, a bod gwybodaeth o ansawdd uchel yn cael ei darparu mewn modd amserol a chyson
- bod craffu'n cael ei arwain gan gynghorwyr, yn ystyried barn y cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwysu blaenoriaethu pryderon cymunedol â materion sy'n ymwneud â phwysigrwydd a risg strategol
- bod cyfarfodydd a gweithgareddau craffu'n cael eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt
- bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n rhoi adroddiad cyhoeddus mewn cyfarfodydd pyllgorau craffu ar gyfrifoldebau eu portffolio

### Gwell ymgysylltiad

#### dylai craffu:

- gael ei gydnabod gan y weithrediaeth a'r tîm rheolaeth gorfforaethol fel dull pwysig yn y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, a hwyluso mwy o gyfranogiad gan ddinasyddion mewn llywodraethu
- cael ei nodweddu gan gyfathrebu effeithiol i godi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad ynddo
- gweithredu'n anwleidyddol ac ymdrin yn effeithiol â materion gwleidyddol sensitif, tyndra a gwrthdaro
- datblygu ymddiriedaeth a pherthynas dda ag ystod eang o randdeiliaid mewnol ac allanol
- galluogi 'llais' pobl leol a chymunedau ar draws yr ardal i gael ei glywed yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau.

---

## Dulliau o graffu ariannol

O fewn yr egwyddorion a'r nodweddion a amlinellir yn y canllaw hwn, mae'n bwysig bod cynghorau'n dewis dull sy'n addas iddynt hwy. Dyma rai dulliau cyffredin yng Nghymru a Lloegr:

- paneli penodol sy'n craffu ar y gyllideb sy'n 'cysgodi' prosesau cynllunio cyllidebol ac ariannol. Maent yn darparu trosolwg corfforaethol defnyddiol, ond mae angen eu hintegreiddio â'r gwaith craffu arall sy'n cael ei wneud;
- paneli trosfwaol sy'n craffu ar y gyllideb, a gefnogir gan bwyllgorau craffu ar wasanaethau penodol sy'n ystyried penawdau cyllideb adrannol;
- pwyllgorau craffu sefydlog y mae craffu ariannol a chyllidebol yn rhan o'u gwaith. Gall eu canfyddiadau fwydo i'r broses cyllideb gorfforaethol, yn ogystal â monitro eu maes penodol, gan ystyried goblygiadau ariannol argymhellion;
- tasgluoedd amser cyfyngedig sy'n adolygu materion ariannol penodol. Mae'r rhain yn rhoi amser a chwmpas i gynghorwyr ystyried mater yn fanylach, gan helpu craffu i flaenoriaethu.

Mae adolygiadau ar sail thema yn rhoi cyfle i glywed gan randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd, sy'n fwy tebygol o ymateb os gofynnir cwestiynau iddynt am faes polisi penodol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynghorwyr gynhyrchu cynigion, yn wahanol i waith monitro sy'n gallu teimlo'n fwy goddefol gan ei fod yn canolbwyntio ar yr hyn nad yw wedi gweithio yn hytrach na helpu i godi uchelgais.

## Beth yw'r rhwystrau rhag craffu ariannol?

Mae canlyniadau arolygon y Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn dangos yn gyson bod cynghorau o'r farn bod craffu ariannol effeithiol yn anodd:

- Mae'n wleidyddol, ond fe all weithio mewn ffyrdd sy'n wahanol i weithgareddau eraill grŵp gwleidyddol;
- Credir ei fod yn dechnegol a chaiff ei ddrysu ag archwilio a chydymffurfio;
- Mae'n gallu amlygu tyndra rhwng gweithrediaeth y cyngor a chynghorwyr eraill, rhwng swyddogion a chynghorwyr, a rhwng adrannau gwasanaeth a'r adran gyllid neu'r ganolfan gorfforaethol;
- Mae'n rhaid iddo integreiddio craffu ariannol â chraffu ar bolisiau a/neu wasanaethau sy'n mynd rhagddo ym mhob rhan o'r cyngor.

O'i wneud yn dda, gall craffu ddylanwadu ar brosesau ariannol a chynllunio, yn ogystal â pherfformiad ariannol a chanlyniadau gwasanaethau penodol. Felly, sut gall gwaith craffu ariannol weithio'n dda, o ystyried y rhwystrau posibl?

Dylai craffu ariannol fod yn heriol ond yn adeiladol – nid yw'r un fath â 'gwrthwynebu' ac nid yw ychwaith yn golygu cynnig cyllideb neu dreth gyngor amgen. Dylai fod â ffocws, ond ni ddylai ficro-reoli na sgîl-feirniadu rheolaeth ariannol sy'n gyfrifoldeb i weithwyr cyllid proffesiynol. Dylai trosolwg a chraffu ar adnoddau a chyllidebau cynghorau fynd i'r afael â materion strategol:

- ystyried strategaeth y gyllideb yng nghyd-destun heriau sy'n wynebu'r cyngor a phobl sy'n byw yn ei ardal;
- asesu gwersi a materion sy'n codi o ddatganiadau ariannol archwiliedig blynyddoedd blaenorol ac adroddiadau alldro cysylltiedig;

- darparu asesiad adeiladol o ba un a yw systemau cynllunio ariannol y cyngor yn effeithiol o ran cyflawni blaenoriaethau a nodwyd – sut caiff adnoddau eu dyrannu a sut yr ymdrinnir â thwf ac arbedion?
- asesu pa un a yw systemau ariannol yn ddibynadwy ac yn hygyrch; ac
- ystyried sut y gwneir penderfyniadau ariannol a phenderfyniadau am adnoddau, pa dybiaethau a meini prawf a ddefnyddir a pha wybodaeth a ystyrir?

## Y berthynas rhwng archwilio a chraffu

Mae'n ddyletswydd statudol ar gynghorau i weithredu pwyllgor archwilio, ond ni all gymryd yn ganiataol bod hyn yn darparu swyddogaeth craffu ariannol gynhwysfawr. Mae pwyllgorau archwilio'n gyfrifol am sicrhau mesurau rheoli ariannol digonol, cydymffurfio â rheolau cywirdeb a chyfrifyddu, ond dylent wrthsefyll y demtasiwn i ymgymryd â'r rôl graffu.

Dylai pwyllgorau craffu adolygu blaenoriaethau a chanlyniadau polisi, a herio'r weithrediaeth ynglŷn â'i gweithredoedd i gyflawni nodau polisi datganedig. Dylai pwyllgorau archwilio roi sicrwydd ynglŷn â mesurau rheoli ariannol er mwyn lliniaru risgiau allweddol a bod gan y cyngor drefniadau rheolaeth ariannol effeithiol sy'n cynnwys craffu.

	Craffu	Archwilio
<b>Diffiniad</b>	pŵer i gael gwybodaeth, holi cynghorwyr gweithredol, swyddogion a rhai sefydliadau eraill, er mwyn gwneud argymhellion a chael ymatebion	cynnal trosolwg o drefniadau rheolaeth ariannol y cyngor, ei systemau rheoli a chydymffurfiaid â rheolau cywirdeb a chyfrifyddu
<b>Pwerau ehangach</b>	pŵer i ystyried materion sy'n effeithio ar ardal y cyngor neu ei breswylwyr	dim pwerau i ystyried materion nad ydynt yn ymwneud ag arian na materion nad yw'r cyngor yn gyfrifol amdanynt
<b>Galw i mewn</b>	yr hawl i alw penderfyniadau allweddol i mewn a gofyn i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ailfeddwl, neu atgyfeirio'r penderfyniad i'r cyngor llawn i'w ystyried	dim pŵer i alw penderfyniadau i mewn, ond gall ofyn i swyddogion a chynghorwyr fynychu ac ymateb i faterion penodol
<b>Rôl archwilio</b>	dim rôl ffurfiol o ran sicrhau cydymffurfiaid â rheolau cywirdeb a chyfrifyddu	derbyn adroddiadau archwilio allanol a mewnlol ar ddatganiadau ariannol a systemau rheoli a llywodraethu. Dylai fod gan y Pennaeth Archwilio Mewnlol hawl mynediad uniongyrchol
<b>Cwestiynau allweddol</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1 pam mae'r weithrediaeth wedi penderfynu gwario arian ar hyn?</li> <li>2 A yw'r canlyniadau'n dangos gwerth ariannol a/neu gymdeithasol?</li> <li>3 Beth fyddai'n digwydd pe byddai'r cyngor yn rhoi'r gorau i wario ar hyn?</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1 sut ydym ni'n gwybod faint mae'r cyngor wedi'i wario ar hyn?</li> <li>2 a yw'r cyngor wedi cydymffurfio â gofynion statudol?</li> <li>3 A ydym ni'n sicr y gallwn ragfynegi risg a diogelu'r cyngor rhagddi?</li> </ol>

---

## Craffu ariannol ar waith

Dylai craffu ariannol ystyried y cyd-destun ehangach – cysylltu craffu ar y gyllideb â chraffu ar strategaethau corfforaethol a pherfformiad; ac â dealltwriaeth o'r materion allweddol sy'n wynebu'r cyngor a'r sector cyhoeddus.

Dylai craffu ariannol adlewyrchu meysydd allweddol gweithgareddau ariannol cyngorau:

---

### Cynllunio ariannol

- ymwneud â chynllunio ariannol, gwasanaeth a chorfforaethol tymor canolig
- herio sut caiff y gyllideb ei llunio

---

### Rheolaeth ariannol

- monitro'r gyllideb yn rheolaidd, ond nid yn fanwl, neu adolygu bod monitro effeithiol yn cael ei wneud mewn man arall
- adolygu rhagolygon ariannol a pherfformiad yn ogystal â gwybodaeth gyfredol am fonitro'r gyllideb a pherfformiad
- gwerthuso gwerth ariannol a/neu gymdeithasol

---

### Cynlluniau effeithlonrwydd ac arbedion

- ystyried effaith cynigion ar gyfer arbedion
- monitro'r broses o gyflawni cynlluniau arbedion cytunedig
- adolygu canlyniadau prosiectau effeithlonrwydd a modelau darparu amgen

---

### Cyfranogiad dinasyddion

- cynnwys y cyhoedd mewn craffu ariannol
- cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb
- hybu tryloywder, cynhwysiant ac atebolrwydd mewn prosesau cynllunio ariannol, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol.

---


## Craffu ar bartneriaethau a modelau darparu amgen

Gall craffu gyflawni swyddogaeth bwysig wrth ddal darparwyr gwasanaeth allanol i gyfrif. Fodd bynnag, ceir rhai rhwystrau rhag craffu ar y sector preifat, gan gynnwys:

- mae'n bosibl na fydd darparwyr yn cydnabod gofynion craffu a/neu'n honni bod 'cyfrinachedd masnachol' yn eu hatal rhag cymryd rhan;
- mae'n bosibl y bydd swyddogion gweithredol yn amddiffynol ynglŷn â datgelu gwybodaeth am feini prawf caffael, canlyniadau disgwylidig neu daliadau;
- dryswch ynghylch pwy sy'n atebol – darparwyr, y comisiynydd, neu'r ddau;
- mae'n bosibl na fydd y contractwr, y cleient a chraffu yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i allu cyfranogi'n effeithiol.

Mae canllaw'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus, 'small print BIG PICTURE' (2008), yn amlinellu rhai elfennau allweddol ar gyfer dull llwyddiannus o graffu ar drefniadau o'r fath, sef:

- **Pwyslais ar berthnasoedd:** dylai craffu ddatblygu cyd-ddealltwriaeth a pherthynas gynhyrchiol â darparwyr.



- **Eglurder a chytundeb ynglŷn â rhwymedigaethau cytundebol a disgwyliadau:** dylai contractau gynnwys rhwymedigaethau ynghylch craffu; dewis arall yw protocol cytunedig rhwng y partïon.
- **Eglurder ynglŷn â sianelau cyfathrebu:** dylai craffu bob amser ddechrau gyda'r cleient, cyn cysylltu â'r darparwr. Bydd contractau proffil uchel yn elwa ar drefniant ysgrifenedig ynghylch cynrychiolaeth ar lefel uwch gan y darparwr.
- **Dull wedi'i deilwra:** mae'n bosibl y bydd y dull 'pwyllgor dethol' traddodiadol yn llai priodol na dewisiadau eraill fel ymweliadau safle neu grwpiau gorchwyl a gorffen.
- **Rhaglenni hyfforddiant a datblygiad:** ar ôl asesu'r sgiliau sydd ganddo a'r sgiliau y mae eu hangen arno, dylai'r pwyllgor craffu ymrwymo i ddatblygu'r rhain er mwyn cyflawni ei swyddogaeth yn fwy effeithiol.

Mewn amgylchedd lle mae atebolrwydd yn mynd yn fwyfwy tameidiog oherwydd bod awdurdodau'n llunio partneriaethau a 'modelau darparu amgen' eraill, gall craffu ariannol gyflawni swyddogaeth hollbwysig wrth 'ddilyn yr arian' ac asesu'r gwerth am arian a geir trwy fentrau o'r fath.

#### **Partneriaethau sector cyhoeddus**

Dylai partneriaethau sector cyhoeddus sydd â goblygiadau ariannol mawr, fel partneriaethau darparu gwasanaeth strategol, fod yn arbennig o agored i graffu. Dyma rai cwestiynau allweddol posibl:

- sut mae'r partneriaethau hyn yn cael eu rheoli'n ariannol;
- beth yw'r effaith ar y gyllideb gyffredinol;
- beth yw'r meini prawf ariannol a'r meini prawf eraill ar gyfer eu llunio;
- sut mae canlyniadau a thaliadau'n cael eu monitro; a
- sut mae'r cyngor yn sicrhau eu bod yn atebol yn ddemocrataidd?

Gall craffu ariannol gofalus hefyd helpu i gyflwyno ac egluro materion cymhleth i'r cyhoedd trwy herio effaith gwariant ar feysydd polisi trawsbynciol, fel teuluoedd cythryblus, lle y ceir amryw ffrydiau cyllido a lle mae'n bosibl na fydd gwybodaeth ariannol yn cyfateb yn uniongyrchol neu'n amlwg i'r maes polisi.

#### **Partneriaethau cyhoeddus-preifat**

Mae'r cynnydd mewn darparu gwasanaethau cynghorau trwy'r sector preifat yn cyflwyno heriau newydd o ran atebolrwydd a llywodraethu. Bydd darparwyr o'r fath yn gyfarwydd â ffurfiau o gydymffurfio cyfreithiol ac ariannol, ond fe allent fod yn anghyfarwydd ag atebolrwydd democrataidd. Fel yr amlygwyd mewn adolygiadau fel Responding to the Challenge: alternative delivery models in local government (Grant Thornton, Ionawr 2014) a small print BIG PICTURE (2008), mae gan graffu swyddogaeth bwysig i'w chyflawni wrth sicrhau gwerth am arian gan wasanaethau a geir o ffynonellau allanol. Mae'n gallu:

- darparu fforwm ar gyfer clywed ac asesu safbwyntiau'r darparwr, y cleient a'r defnyddiwr gwasanaeth sy'n annibynnol ar brosesau monitro contract neu ofal cwsmeriaid;
- cyfleu darlun cyflawn o ddarparu gwasanaeth o'r dechrau i'r diwedd – o bennu gofynion y polisi i wirio canlyniadau'r gwasanaeth;


- 
- darparu ffordd o gryfhau lleisiau defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig i fynegi pryderon am dystiolaeth (neu ganfyddiad) o fethiant gwasanaeth;
  - ysgogi darparwyr i gyfrannu at adolygu a datblygu polisïau, gan ddefnyddio eu profiad o ddarparu gwasanaethau mewn mannau eraill;
  - darparu capasiti ychwanegol i herio perfformiad darparwyr, yn enwedig os nad oes gan y cleient lawer o adnoddau neu arbenigedd.

#### **Partneriaethau trydydd sector**

Mae partneriaethau â'r trydydd sector, neu'r sector gwirfoddol, cymunedol a ffydd, yn bwysig o safbwynt craffu oherwydd:

- ei fod yn ymwneud mwyfwy â darparu gwasanaethau, yn aml mewn lleoliadau cymunedol;
- ei fod yn darparu cyfrwng ar gyfer cysylltu â'r cyhoedd.

Yn ei dogfen Canllawiau Statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (2011), mae Llywodraeth Cymru yn amlygu sut y mae'n ystyried bod gan y sector gwirfoddol swyddogaeth bwysig i'w chyflawni wrth gyfrannu at waith craffu cynghorau. Ceir llawer o enghreifftiau ledled Cymru o'r sector gwirfoddol yn ymgysylltu â chraffu, gan wneud cyfraniad gwerthfawr trwy safbwyntiau cyfoethogol a dilys. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain yn uniongyrchol at wella gwasanaethau cyhoeddus, ac mewn achosion eraill, mae wedi cryfhau cyfathrebu rhwng dinasyddion, grwpiau diddordeb arbennig a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.





# Pam mae'n rhaid i gynghorwyr gymryd rhan mewn craffu ariannol

---

## Mae gan gynghorwyr hawl gyfreithlon i herio cyllid cynghorau

Mae gan gynghorwyr hawl ddemocrataidd sylfaenol i gomisiynu gwybodaeth ariannol a herio swyddogion gweithredol a swyddogion eraill ynglŷn â chyllid. Dylai craffu gael ei arwain gan gynghorwyr, ac mae'n cynnwys:

- darllen gwybodaeth o flaen llaw
- gofyn cwestiynau perthnasol ac amserol

Gan eu bod yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau craffu, mae angen i gynghorwyr gael amser a chyfle i ofyn cwestiynau.

Ni ddisgwylir i gynghorwyr craffu fod yn arbenigwyr ariannol, ond mae ganddynt rôl allweddol o ran sicrhau bod atebolrwydd a gwerth am arian yn cael eu harddangos i'r cyhoedd.

Mae angen i gynigion cyllidebol gael eu darparu'n ddigon cynnar i roi amser i gynghorwyr ystyried yr effaith yn briodol. Dylai gweinyddiaethau cynghorau rannu cynigion cyllidebol â grwpiau gwleidyddol eraill yn agored ac mewn modd amserol. Dylent hefyd sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau yn cael ei hysgrifennu mewn iaith eglur.

Gall sgiliau holi effeithiol wneud craffu'n fwy buddiol. Dylai cynghorwyr addasu'r dull holi yn unol â'r math o bobl sy'n darparu gwybodaeth.

Mae Atodiad B yn darparu ystod o gwestiynau y gallai pwyllgorau craffu eu gofyn i gyflwyno her 'cyfaill beirniadol' i gyllidebau a chynlluniau ariannol.

---

## Astudiaeth Achos – Cyngor Swydd Buckingham – Holi effeithiol gan Aelodau

Yn dilyn etholiadau lleol mis Mai 2013, sefydlodd Swydd Buckingham fodel pwyllgor dethol i gyflawni ei swyddogaethau craffu, sy'n cynnwys herio cynigion cyllidebol drafft y Cabinet. Mae Cyngor Swydd Buckingham yn cynhyrchu cyllidebau dangosol 3 blynedd yn rhan o'i broses cynllunio tymor canolig flynyddol. Roedd y broses cynllunio tymor canolig ar gyfer 2014-15 i 2017-18 yn arbennig o anodd gan nad oedd llywodraeth ganolog wedi darparu eglurder ynghylch y setliad llywodraeth leol tan yn hwyr ym mis Rhagfyr 2013, a oedd yn golygu bod angen gwneud tybiaethau ynglŷn â lefelau cyllid.

Bu'r Pwyllgor Dethol Cyllid, Perfformiad ac Adnoddau newydd yn craffu ar y cynigion cyllidebol drafft dros 4 diwrnod ym mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014. Prif amcanion yr ymarfer hwn oedd

- archwilio pa un a oedd y Cabinet wedi cynhyrchu cyllideb gytbwys a oedd yn cefnogi blaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor Sir, a
- rhoi ail farn a gwneud argymhellion seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cryfhau'r cynigion.

Roedd y Pwyllgor Dethol yn gweithio o fewn graddfeydd amser tynn iawn ar gyfer ymarfer o'r maint hwn. Ymatebodd yr Aelodau i'r her. Ar ôl cynnal y sesiynau tystiolaeth olaf yn gynnar ym mis Ionawr, cynhyrchodd y Pwyllgor adroddiad terfynol bythefnos yn ddiweddarach, a oedd yn cynnwys 15 argymhelliad i Gabinet y Cyngor eu hystyried. Ymatebodd y Cabinet i'r argymhellion hyn yn ysgrifenedig cyn cytuno ar eu cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig, terfynol ar gyfer 2014-15 i 2017-18 ar 3 Chwefror 2014.

Roedd argymhellion y Pwyllgor Dethol yn bellgyrhaeddol ac yn cynnwys:

- yr angen i lobïo llywodraeth leol am setliad ariannol amserol

- yr angen i barhau i symud tuag at hunangynhaliaeth ariannol
- gwelliannau i'r broses o osod y gyllideb, gan ganolbwyntio ar dryloywder a hygyrchedd y gyllideb
- datganoli cymwyseddau ychwanegol i gynghorau plwyf a thref
- archwilio cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithio ar y cyd â phartneriaid fel Cynghorau Dosbarth, ac
- archwilio dewisiadau ar gyfer cyllido rhaglen tymor hir o welliannau i'r ffyrdd.

Roedd y Pwyllgor Dethol hefyd wedi amlygu nifer o ostyngiadau penodol a allai fod yn wrthgynhyrchiol neu'n groes i flaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor pe byddent yn cael eu gweithredu. Cytunodd y Cabinet i wrthdroi'r rhan fwyaf o'r rhain a rhannol-wrthdroi neu geisio lliniaru effeithiau'r gweddill.

Yn ogystal â chraffu ar gynigion cyllidebol y Cyngor, un o nodau allweddol y Pwyllgor Dethol oedd 'codi'r llen' ar y broses o osod y gyllideb trwy gynyddu ei phroffil a'i gwneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Ymdriniwyd â gwaith y Pwyllgor Dethol o graffu ar y gyllideb gan BBC South Today ac yn y wasg leol, a gynorthwyodd i gynyddu proffil swyddogaeth graffu'r Cyngor a'i phroses ar gyfer gosod y gyllideb.

Cynhaliodd y Pwyllgor Dethol Cyllid, Perfformiad ac Adnoddau sesiynau â phob Aelod o'r Cabinet i'w holi ynghylch eu cynlluniau gwario drafft a blaenoriaethau eu portffolio. Gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet gyflwyno eu portffolio a'u cynigion cyn ateb cwestiynau manwl gan y Pwyllgor Dethol am oddeutu awr. Holwyd Arweinydd y Cyngor ynghylch cyfeiriad polisi cyffredinol y Cyngor, portffolio'r Arweinydd, a materion a gododd yn ystod y broses o graffu ar y gyllideb. Cynhaliwyd sesiwn benodol ar raglen gyfalaf y Cyngor gyda Dirprwy Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid ac Adnoddau.


Ymgysylltodd y Pwyllgor Dethol â thystion allanol hefyd, megis:

- Community Impact Bucks, sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol a chymunedol lleol
- Barnardo's, sy'n darparu nifer o wasanaethau i blant ar gyfer yr awdurdod lleol, a
- Buckinghamshire Business First, sy'n darparu cyswllt rhwng polisi cyhoeddus a'r gymuned fusnes leol.

Roedd y tystion allanol hyn yn amhrisiadwy o ran esbonio effeithiau penodol amryw gynigion cyllidebol, a gwnaethant helpu i lywio cyfeiriad y cwestiynau a ofynnodd y Pwyllgor Dethol i Aelodau'r Cabinet, yn ogystal â'u hargymhellion.

Roedd Cadeiryddion tri phwyllgor dethol arall y Cyngor (Addysg, Sgiliau a Gwasanaethau Plant; yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Gwasanaethau Lleol; ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion) yn ymwneud â sesiynau craffu a oedd yn gysylltiedig â chylch gorchwyl eu pwyllgorau dethol. Ychwanegodd y Cadeiryddion werth trwy rannu eu gwybodaeth fanwl am y portffolios a oedd yn destun craffu a thrwy gyfrannu at holi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Wrth baratoi, gwnaeth yr Aelodau adolygu'r cynigion cyllidebol drafft yn fanwl, cynnal sesiynau anffurfiol â Phrif Swyddog Cyllid y Cyngor a'r Arweinydd Tîm ar gyfer Ymchwil, ac ystyried safbwyntiau trigolion lleol, busnesau a sefydliadau cymunedol trwy adolygu canlyniadau Ymgynghoriad y Cyngor ar y Gyllideb. Cynhaliwyd yr holl sesiynau tystiolaeth yn gyhoeddus ac fe'u darlledwyd yn fyw ar wefan y Cyngor. Mae'r recordiadau hyn ar gael i'w gweld ar-lein am 6 mis. Mae adroddiad y Pwyllgor Dethol ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor hefyd.



---

**Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylwadau ar fanteision y craffu cadarn a ddarparwyd gan y Pwyllgor Dethol:**

‘Galwyd holl Aelodau’r Cabinet gerbron y Pwyllgor i esbonio eu cynigion cyllidebol. Fe’n holwyd ni’n fanwl iawn ar y cynigion cyllidebol hynny. Rwy’n credu bod gan y rhan fwyaf ohonom ni gleisiau o hyd sy’n tystio i drylwyrder yr holi, ac o ganlyniad i’r ymarfer hwnnw, a barhaodd fwy neu lai wythnos, paratowyd adroddiad manwl iawn ... Hoffwn ddiolch i [Gadeirydd y Pwyllgor] yn arbennig, ond hefyd i’ch holl Aelodau am y ffordd ragorol ac ymrwymedig a phroffesiynol iawn yr ymgymeroch â’ch gwaith. Mae’n amlwg eich bod chi i gyd wedi treulio llawer o amser yn casglu gwybodaeth, er mwyn deall y gyllideb, ac ymdrin â’r manylion ar ran yr holl Gyngorwyr Sir. Grŵp trawsbleidiol yw hwn... ac rwy’n credu eich bod chi’n rhoi gwasanaeth gwych i holl drigolion y sir.’

---

### **Gall gwybodaeth helpu i wneud penderfyniadau**

Dylai craffu ar faint o arian sy’n cael ei ddyrannu, ei wario a’i reoli fod yn flaenoriaeth allweddol i bob cynghorydd sir. Er hynny, mae cyllid llywodraeth leol yn aml yn cael ei ystyried yn rhywbeth anhryloyw, ac rydym yn gwybod bod pobl yn teimlo nad yw craffu ariannol yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, mae craffu ariannol yn mynd y tu hwnt i archwilio – mae’n ymwneud â herio sut mae cynghorau’n gwneud dewisiadau hollbwysig am flaenoriaethau ar gyfer cyllid a pha mor dda y defnyddir adnoddau i gyflawni amcanion polisi.

Yn yr un modd, gallai rheoli perfformiad ymddangos fel petai’n llawn jargon sy’n llesteirio ymdrechion gan swyddogion anweithredol i ymchwilio i berfformiad yn briodol. Mae rheoli perfformiad yn ddull ar gyfer gwella gwasanaethau – mae’n ymwneud â gwneud pethau’n well i bobl leol a sicrhau bod y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a’u darparu yn cyflawni gwerth am arian. Monitro perfformiad yw’r rôl yr ymgymereir â hi’n fwyaf aml mewn gwaith craffu cynghorau.

Bydd datblygu hyder ac awydd i ddeall gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad, ei chysylltu â’r ffordd y mae pobl yn profi gwasanaethau a’i defnyddio i ysgogi gwelliannau, yn cynyddu effaith yr agwedd hon ar graffu.

Gall gwybodaeth am berfformiad a gyfunir â gwybodaeth gyllidebol gael ei defnyddio ym mhob adolygiad craffu i gael dealltwriaeth o ba un a yw gwerth yn cael ei gyflawni a pha un a yw gwelliannau’n angenrheidiol, yn ymarferol ac yn fforddiadwy. Yng nghyd-destun ‘gwerth’, dylai craffu ystyried gwerth cymdeithasol gwasanaethau yn ogystal â’u cost ariannol. Nid gwaith ychwanegol i chi yw hyn – mae’n ffordd o sicrhau bod yr hyn yr ydych chi eisoes yn ei wneud yn fwy effeithiol trwy seilio eich gwaith yn y byd go iawn.

Pan fydd cynghorwyr yn adolygu gwasanaeth, dylent weithio i sicrhau eu bod yn adolygu’r gwasanaeth hwnnw yn ei gyfanrwydd, ac nid dim ond y darlun cyfyngedig a gynigir gan wybodaeth am berfformiad neu gyllid. Felly, gofynnwch i’ch hun, er enghraifft, a yw gwybodaeth am berfformiad a chyllid yn cyd-fynd â’ch ymchwil eich hun, yn enwedig profiad defnyddwyr gwasanaeth, ac a yw mesurau rheoli perfformiad a rheoli ariannol yn cyflawni’r nodau cywir yn y ffyrdd cywir fel bod blaenoriaethau’r cyngor yn cael eu gwireddu.


Dyma enghreifftiau o feini prawf defnyddiol ar gyfer craffu ariannol: a fu gorwariant neu danwariant sylweddol? A fu materion yn ymwneud â galw neu gyflenwad, a beth mae hynny’n ei ddweud wrthym am y dyfodol? A yw’r gwariant ar y prosiect neu’r polisi penodol hwn wedi cyflawni gwerth am arian, a pha werth cymdeithasol

---

y mae wedi'i ychwanegu? A yw'r gyllideb gyffredinol yn cyd-fynd â blaenoriaethau dynodedig y cyngor? Yn olaf, a yw newidiadau i'r gyllideb yn gysylltiedig ag adroddiadau rheoli perfformiad? Yn yr un modd, ar gyfer rheoli perfformiad, dyma rai awgrymiadau ar gyfer meini prawf i'w defnyddio wrth lunio adroddiadau eithrio: a yw nifer a natur y cwynion corfforaethol yn awgrymu bod achosion pryder? Yn ogystal, a yw perfformiad, yn ôl mesurau'r cyngor ei hun, wedi bod yn wael am ddau chwarter yn olynol? A yw gwaith diweddar sy'n ymwneud â hunanreoleiddio neu weithgareddau asesu neu arolygu eraill, yn awgrymu bod achos pryder cyffredin? Yn olaf, a yw hyn yn flaenoriaeth i'r sefydliad ar hyn o bryd?

Gallai fod yn ddefnyddiol i gynghorwyr feddwl am ba gwestiynau yr hoffent hwy gael yr atebion iddynt yn bersonol mewn mater pob dydd sy'n ymwneud â'u cyllid eu hunain, er enghraifft, prynu tŷ. Cyn penderfynu ar ba dŷ i'w brynu, rydych yn debygol o ystyried pa nodweddion neu flaenoriaethau sy'n bwysig i'r aelwyd o ran lleoliad, nifer yr ystafelloedd, nodweddion penodol, ac ati. O ran cyllido hyn, rydych yn debygol o ddefnyddio dull cost oes gyfan o benderfynu ar yr hyn sy'n fforddiadwy, gan ystyried cwestiynau fel pa ffynonellau incwm sydd ar gael i chi ei gyllido? Beth fyddai'r costau morgais a chynnal parhaus? Pa waith adeileddol, atgyweiriadau a gwelliannau sy'n debygol o fod yn angenrheidiol? Pa dybiaethau sy'n sail i'r amcangyfrifon hyn ynghylch costau? Mae'r ystyriaethau hyn i gyd yn ddilys iawn ac mae'r egwyddorion yr un mor berthnasol i adolygu cyllid cynghorau.

Mae Atodiad C yn rhoi enghraifft o adroddiad monitro cyllideb nodweddiadol, ynghyd â rhai awgrymiadau ar gyfer sut i gyfeirio cwestiynau wrth adolygu data tebyg yn eich cyngor.



# Deall rolau a chyfrifoldebau

---

Mae gan gynghorwyr a swyddogion gyfrifoldeb cyfunol ac unigol i sicrhau bod cyllid y cyngor yn cael ei reoli'n effeithiol. Dyma grynodedd o'r rolau a'r chyfrifoldebau allweddol:

## Y Cyngor

Mae cyfrifoldebau'r cyngor yn cynnwys cytuno ar y fframwaith polisi a chyllideb.

## Y Cabinet/Y Weithrediaeth

Mae'r cabinet neu'r weithrediaeth yn gyfrifol am gynnig y fframwaith polisi a chyllideb a strategaethau allweddol, gan gynnwys y cynllun ariannol tymor canolog a'r gyllideb flynyddol. Mae ganddo/ganddi'r grym i wneud pob penderfyniad gweithredol o fewn y fframwaith polisi a chyllideb y cytunwyd arno gan y Cyngor.

## Y Tîm Rheolaeth Gorfforaethol

O fewn y fframwaith polisi a chyllideb a phenderfyniadau a wneir gan swyddogion gweithredol, mae gan Brif Weithredwyr, Prif Swyddogion Cyllid a Swyddogion Monitro gyfrifoldebau allweddol ar gyfer y ffordd y caiff cynghorau eu cynnal o ran cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol. Mae Adran 151 y Ddeddf Llywodraeth Leol yn gosod gofynion i baratoi cyllideb flynyddol ochelgar a chytbwys sy'n cynnwys cynnal lefelau rhesymol o gronfeydd wrth gefn. Mae aelodau eraill o'r tîm rheolaeth gorfforaethol yn gyfrifol am weinyddu cyllidebau gwasanaeth blynyddol.

## Gweithwyr Cyllid Proffesiynol

Dylai gweithwyr cyllid proffesiynol, fel archwilwyr a chyfrifyddion, amlygu sut y gall prosesau cynllunio a rheolaeth ariannol sicrhau amser a lle i graffu ychwanegu gwerth a gwneud gwahaniaeth. Yn ôl pob tebyg, bydd hyn yn golygu darparu gwybodaeth i gynghorwyr craffu trwy gydol y cylch ariannol. Dylai cynghorwyr craffu sylweddoli y gallai'r wybodaeth hon fod ar ffurf ddrafft ac y gallai newid.

## Cadeirydd Craffu

Gall cadeirio da gyfrannu at lwyddiant craffu trwy:

- ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad;
- sicrhau bod craffu'n gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol;
- sicrhau bod craffu'n aros o fewn ei gylch gorchwyl;
- gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, yn enwedig amser;
- hyrwyddo craffu yn y sefydliad ac yn allanol; a
- chynrychioli'r cyngor mewn rhwydweithiau a digwyddiadau.

Dylai'r Cadeirydd annog pob cynghorydd craffu i gymryd rhan lawn mewn craffu, gan gynnwys cyfrannu at unrhyw waith cytunedig y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol. Dylent osod tôn y cyfarfod, gan helpu i sicrhau nad yw craffu'n mynd yn wrthdrawiadol. Mae argymhellion craffu'n fwy dylanwadol os cânt eu cefnogi gan gonsensws. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am ddatblygu perthynas adeiladol ag Aelod(au) Cabinet priodol ac uwch swyddogion yn y gwasanaethau sy'n destun craffu.

## Cynghorwyr craffu

Rôl cynghorwyr craffu yw adolygu polisiau a herio a yw'r weithrediaeth wedi gwneud y penderfyniadau cywir i gyflawni nodau'r polisi. Mae eu rôl yn cynnwys:

- Cynorthwyo'r cabinet i ddatblygu cynigion cyllidebol a pholisïau y pennwyd eu costau'n briodol;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol y cyngor a'i bartneriaid;
- Archwilio effaith a gweithrediad penderfyniadau a pholisïau'r cabinet;
- Dal arweinydd y cyngor, y cabinet ac uwch swyddogion i gyfrif; a
- Chraffu ar sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau i drigolion.

### Aelodau cyfetholedig

Gall pobl nad ydynt yn gynghorwyr gael eu cyfethol ar baneli craffu neu dasgluoedd cysylltiedig. Gall aelodau cyfetholedig fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynrychioli barn y gymuned, darparu safbwynt ehangach/cytwbws ar faterion ac annog ymgysylltiad y cyhoedd â chynigion cyllidebol.

### Cymorth craffu penodol

Rydym eisoes wedi trafod sut mae gweithwyr cyllid proffesiynol yn cefnogi craffu ariannol. Mae ymchwil y Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi canfod bod effeithiolrwydd craffu yn uniongyrchol gysylltiedig â lefel y cymorth penodol a roddir iddo. Mewn cynghorau sy'n ymrwymo adnoddau i ddarparu cymorth penodol, mae'r manteision yn cynnwys:

- bod gwaith gorchwyl a gorffen, sy'n arwain at argymhellion penodol ar sail tystiolaeth, yn fwy cyffredin ac yn cael ei wneud yn fwy effeithlon;
- bod canlyniadau'n cael eu dilyn mewn ffordd gynlluniedig;
- bod amser swyddogion ar gael i gynghorwyr craffu er mwyn cefnogi craffu creadigol ac arloesol; a
- bod ymrwymiad i dryloywder, cynhwysiant ac atebolrwydd, sy'n caniatáu i gynghorwyr anweithredol gyfrannu at ddatblygu polisi.

### A oes gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau priodol?


“*Ni cheir amlinelliad o'r hyn sy'n ofynnol gan gynghorydd, felly sut gallai unrhyw un nad yw'n gyfarwydd â chynllunio ariannol wybod pa un a fyddai'n gallu ei wneud yn effeithiol neu'n dymuno ei wneud o gwbl?*”

“Representing the Future”, adroddiad y Comisiwn Cynghorwyr (Rhagfyr, 2007) – yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

Nid yw cael eich ethol yn gynghorydd yn golygu bod â datrysiadau ar gyfer cymunedau, ond trwy brofiad a datblygu eich amgyffrediad o'r rôl, byddwch mewn sefyllfa well i allu ymdrin â'r ystod o faterion sy'n codi. Mae amrywiaeth mewn craffu yn tueddu i arwain at ganlyniadau gwell, felly mae'n bwysig bod cynghorwyr nid yn unig yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ond bod hefyd ganddynt ystod eang o gefndiroedd, sgiliau a phrofiad.

Sut dylai cynghorwyr gael eu dewis i gyflawni gwaith craffu ariannol? Byddai'n ddefnyddiol pe byddai ganddynt gefndir mewn cynllunio ariannol, neu sector neu ddiwydiant perthnasol sy'n eu helpu i werthfawrogi rhai o agweddau ehangach y rôl a chanlyniadau eu gweithgarwch craffu, ond nid oes rhaid i'r rhain fod yr

<sup>1</sup> Cydweithrediad sy'n cynnwys oddeutu 50 o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat yw'r Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd. Maent wedi'u huno gan y gred fod llywodraeth leol, trwy weithio mewn partneriaeth, nid yn unig yn gallu ymdopi â'r gostyngiadau cyfredol mewn gwariant, ond hefyd droi'r amgylchiadau presennol er eu budd.



unig ffactorau. Mae angen i gynghorwyr wahaniaethu rhwng eu rolau penodol a buddiannau'r gymuned fel cynrychiolydd ward a'u rôl craffu. Yn 2013, archwiliodd y Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd <sup>1</sup> y sgiliau sydd eu hangen ar gynghorwyr ar gyfer y broses gosod cyllideb a chynllunio ariannol. Dyma'r ffactorau allweddol a amlygwyd:

### **Cyfathrebu Effeithiol**

Yn enwedig rhwng deiliad y Portffolio Cyllid a chydweithwyr yn y Cabinet ac Aelodau eraill, a rhwng swyddogion ac Aelodau. Mae angen i wybodaeth cynllunio ariannol fod yn amserol, yn gywir ac mewn fformat sy'n ddealladwy. Ystyriwyd bod effeithiolrwydd y berthynas weithio rhwng Aelodau a swyddogion yn hollbwysig.

### **Manteisio i'r Eithaf ar Sgiliau Allweddol**

Cydnabuwyd bod gan bob Aelod rai sgiliau ariannol, tra bydd gan eraill sgiliau penodol yn sgil eu cefndir proffesiynol. Mae angen i sgiliau o'r fath gael eu cydnabod a'u defnyddio'n effeithiol. Wrth ystyried y cydbwysedd sgiliau sydd eu hangen ar Aelodau ym maes cynllunio ariannol, amlygodd y rhaglen Future Councillors ddealltwriaeth wleidyddol a chraffu/herio fel sgiliau craidd. Pan nodir bylchau mewn sgiliau, mae'n rhaid sicrhau bod cyfleoedd ar gael ar gyfer hyfforddiant, cymorth a datblygiad. Cydnabuwyd hefyd y bydd angen i Aelodau gael cyngor arbenigol weithiau, a'i bod yn bwysig cydnabod pan fydd angen hyn.

### **Hyfforddiant, Cymorth a Datblygiad**

Hyd yn oed pan fydd gan Aelodau sgiliau ariannol perthnasol, yn sgil cefndir busnes er enghraifft, cydnabuwyd bod angen hyfforddiant a chymorth gan swyddogion er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn cael ei deall yn effeithiol – er enghraifft, cyflwynir cyfrifon llywodraeth leol mewn ffordd wahanol i gyfrifon sefydliad sector preifat. Cydnabuwyd hefyd y gallai Aelodau ategu eu dealltwriaeth o faterion cyfredol sy'n effeithio ar gyllid llywodraeth leol trwy fynychu cynadleddau a digwyddiadau allanol, er enghraifft, y rhai hynny a ddarperir gan CIPFA. Amlygwyd bod fforymau cenedlaethol neu ranbarthol yn bwysig hefyd er mwyn i Aelodau allu rhannu eu profiadau mewn perthynas â chynllunio ariannol.

### **Deall Offer Cynllunio Ariannol**

Ystyriwyd bod dealltwriaeth Aelodau o offer a thechnegau gosod cyllideb, megis Cynllunio Senario, Cyllidebu ar sail Sero a Chostio ar sail Gweithgarwch, yn bwysig ar gyfer sefyllfaoedd pan y'u defnyddir gan eu hawdurdod, neu ar gyfer herio pam nad ydynt yn cael eu defnyddio. Cydnabuwyd bod gan Aelodau rôl i herio a yw'r ffordd bresennol o fynd ati i osod cyllideb yn briodol neu'n arfer da, yn yr un ffordd ag y maent yn herio'r sefyllfa bresennol o ran darparu gwasanaethau. Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â'r angen i fabwysiadu dulliau cynllunio ariannol newydd megis cyllidebu ar sail canlyniadau.

### **Graddfeydd Amser Effeithiol**

Cydnabuwyd bod cynllunio ariannol yn weithgarwch sy'n digwydd trwy gydol y flwyddyn. Mae'n hollbwysig bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei adolygu'n barhaus fel bod tybiaethau'n dal i fod yn gywir, a bod digon o amser ar gael i flaenoriaethu trafodaethau ynghylch cynllunio'r gyllideb, amlygu arbedion ac ymgymryd ag ymgysylltiad angenrheidiol â rhanddeiliaid.

### **Gwybod Pa Gwestiynau i'w Gofyn**

O ystyried mai un o rolau a sgiliau allweddol Aelodau yn y broses gosod cyllideb yw craffu

---

a herio, mae gwybod pa gwestiynau i'w gofyn yn hollbwysig. Rhoddir rhai enghreifftiau o gwestiynau yn ddiweddarach yn y ddogfen ganllaw hon.

### **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

Un o rolau allweddol Aelodau etholedig yw sut mae eu hymgysylltiad â dinasyddion a busnesau yn eu helpu i lywio penderfyniadau cynllunio ariannol allweddol, yn enwedig blaenoriaethau darparu gwasanaethau ac amlygu arbedion. Cydnabuwyd bod deall anghenion defnyddwyr gwasanaeth, a'r dulliau sydd ar gael i wneud hyn, yn bwysig, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid sylweddol. Nodwyd bod y cylch etholiadol yn rhwystr allweddol rhag cynllunio ariannol tymor canolig, ac felly ystyriwyd bod gallu Aelodau i wneud penderfyniadau anodd ond angenrheidiol yn hollbwysig.

'Future Councillors – Where next for local politics?' (y Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd, Gorffennaf 2013)

---

Dylai cynghorau sicrhau eu bod yn buddsoddi digon o amser mewn sicrhau bod gan gynghorwyr y sgiliau priodol, y cymorth priodol gan swyddogion a'r hyfforddiant priodol i ymgymryd â chraffu ariannol effeithiol.

---

### **Astudiaeth Achos – Cyngor Caerdydd: Asesu anghenion a gofynion hyfforddiant Aelodau craffu**

Wrth baratoi ar gyfer proses gosod cyllideb 2013-14, gwahoddwyd yr holl Aelodau craffu i gymryd rhan mewn dwy sesiwn frifffio ar y gyllideb gan dîm y Prif Swyddog Corfforaethol (Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Swyddog Adran 151, i gael dealltwriaeth o'r cyd-destun ar gyfer cyflwyno cyllideb 2013-14. Gwahoddwyd yr Aelodau hefyd i fynychu hyfforddiant ychwanegol a gynhaliwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Mae gan y Cyngor bum Pwyllgor Craffu sy'n ystyried y rhannau o'r Cynigion Cyllidebol drafft a'r Cynllun Corfforaethol drafft sy'n berthnasol i'w cylch gorchwyl. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn cyflwyno argymhellion y Pwyllgorau Craffu i'r Cabinet mewn llythyr. Roedd canlyniadau'r ymarfer hwn ar gyfer 2013-14 wedi amlygu nifer o feysydd cyffredin i'w hystyried mewn perthynas â'r prosesau ar gyfer craffu ar gyllideb y Cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys gwella amseroldeb papurau, sicrhau bod adroddiadau'n gryno ac yn ddealladwy i gynghorwyr, a sicrhau bod asesiadau ansawdd da ar gael o'r effaith ar gydraddoldeb i ategu cynigion ar gyfer cwtogi'r gyllideb.

Yn dilyn etholiadau lleol mis Mai 2012, penodwyd nifer o gynghorwyr newydd, a gwnaed newidiadau i aelodaeth Pwyllgorau Craffu yn ystod 18 mis cyntaf y Weinyddiaeth newydd hefyd. O ystyried y lefel enfawr o her a ddisgwyliid mewn perthynas â phroses gosod cyllideb 2014-15, ysgogodd hyn drafodaethau yn Fforwm Cyswllt Cadeiryddion Craffu'r Cyngor yngl n â sut gellid cynorthwyo cynghorwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth i'w galluogi i graffu'n effeithiol ar y gyllideb. Arweiniodd hyn at yr angen i ddatblygu asesiad o hyfforddiant ac anghenion cynghorwyr craffu, gyda phwyslais penodol ar graffu ar y gyllideb.

Mae gan y Cyngor dîm ymchwil craffu penodol sy'n cynnwys pedwar swyddog a gynhaliodd adolygiad helaeth o lenyddiaeth i amlygu'r sgiliau cyffredin sy'n ofynnol ar gyfer cynghorwyr sy'n ymwneud â chraffu ar gyllidebau a gwybodaeth ariannol. Defnyddiwyd yr adolygiad hwn o lenyddiaeth i lywio'r broses o ddatblygu arolwg manwl yn cynnwys 11 cwestiwn i Aelodau ei gwblhau gan ddefnyddio llwyfan 'Survey Monkey'. Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg gan gynghorwyr yn dda, a chafodd y canlyniadau eu casglu ynghyd a'u hadrodd yn ôl i'r Fforwm Cyswllt Cadeiryddion Craffu ym mis Tachwedd 2013.



---

Rhoddir copi llawn o gwestiynau'r arolwg yn Atodiad D y ddogfen ganllaw hon.

Mae canlyniadau'r arolwg wedi galluogi tîm cymorth craffu'r Cyngor i ddatblygu rhaglen hyfforddiant ar gyfer ei gynghorwyr craffu sy'n amlygu'r meysydd pwnc allweddol lle y nododd y cynghorwyr fod yr angen mwyaf arnynt am gymorth ychwanegol. Mae'r dulliau o ddarparu hyfforddiant yn amrywio rhwng y meysydd pwnc a amlygwyd ac yn cynnwys darparu papurau briffio, sesiynau briffio un i un ar gyfer cynghorwyr a hyfforddiant ar gyfer grwpiau bach a ddarperir gan dimau mewnol fel y timau Canolbwyntio ar Ddinasyddion ac Archwilio, ac ymgynghorwyr allanol fel Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r ymarfer hwn yn ychwanegu at broses ehangach y Cyngor o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ei gynghorwyr wrth iddo weithio tuag at statws siarter Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru.

---

## Hyfforddiant a chymorth

Amlygodd adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Ionawr 2014):

'Er mwyn bod yn effeithiol wrth ddal i gyfrif ac amlygu'n adeiladol gyfleoedd ar gyfer gwella, mae'n rhaid i graffu gael digon o adnoddau i ategu holi cadarn a heriol. Mewn awdurdodau lleol, mae'n rhaid sicrhau bod digon o gymorth ar gael, ar lefel swyddogion, i ddatblygu cynlluniau craffu cydgysylltiedig, nodi bylchau mewn arbenigedd yn y pwyllgorau a darparu gwybodaeth gymesur a dealladwy i aelodau pwyllgor.'

... a bod:

'Craffu effeithiol a chredadwy yn gofyn am fwy nag aelodau etholedig medrus sydd wedi derbyn hyfforddiant, waeth pa mor wybodus y gallent fod am eu maes gwasanaeth. Er mwyn i graffu fod yn wybodus iawn, mae hefyd angen iddo gael digon o gapasiti i ymwneud â'r materion ac ystod eang o wybodaeth, safbwyntiau ac arbenigedd.'

Mae craffu'n cyflwyno llawer o heriau – mae angen i gynghorwyr arwain y broses, eu rheoli eu hunain fel tîm, a gwneud y defnydd gorau o'u hamser trwy holi effeithiol, ac argymhellion seiliedig ar dystiolaeth. Wrth ymgymryd â rôl craffu, gallai cynghorwyr ganfod ei bod yn gofyn am sgiliau nad ydynt wedi'u defnyddio neu na fu angen iddynt eu defnyddio yn eu profiad cyn cael eu hethol. Mae'n werth buddsoddi mewn hyfforddiant digonol ar y sgiliau gofynnol er mwyn cynyddu capasiti a sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o graffu.

O ran Aelodau sy'n ymwneud â chraffu ar gyllid cynghorau, mae gweithdai sy'n canolbwyntio ar esbonio sut mae'r prosesau cynllunio'r gyllideb a chynllunio ariannol yn gweithio, a'r hyn y gall Aelodau ei gyfrannu at y broses trwy herio tybiaethau'n hyderus, yn debygol o fod yn fuddiol iawn. Gallai'r rhain gael eu cynnal gan swyddogion cyllid y cyngor, archwilwyr allanol neu arbenigwyr annibynnol eraill ar gyllid llywodraeth leol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig gwahanu hyfforddiant a dealltwriaeth ynglŷn â chyllid cynghorau oddi wrth y broses graffu ei hun h.y. dadansoddi'n feirniadol, ffurfio casgliadau a datblygu argymhellion. Pan fydd sesiynau gweithdy a gynhelir gan swyddogion cyllid yn canolbwyntio ar gynigion cabinet drafft, mae timau rheolaeth gorfforaethol yn aml yn cymryd bod hyn yn golygu bod craffu wedi 'ystyried' y cynigion, sy'n gallu peri bod craffu ar y gyllideb yn aneffeithiol.

# Craffu a chynllunio ariannol

---

## Nodweddion allweddol cynllunio ariannol da

Mae cynllunio ariannol cynghorau'n cynnwys dwy brif elfen:

- cynllunio strategol – y cynllun ariannol tymor canolig
- cynllunio blynyddol – cyllideb y cyngor.

## Swyddogaeth craffu mewn cynllunio ariannol, gwasanaeth a chorfforaethol tymor canolig

Dylai craffu ystyried:

- a yw cynllunio ariannol tymor canolig yn digwydd mewn gwirionedd ac, os felly, a yw'n gweithio?
- a yw'r gyllideb flynyddol yn cael ei hysgogi gan ddealltwriaeth o bwysau cynllunio ariannol, corfforaethol a gwasanaeth tymor canolig y cyngor?


Dylai craffu ariannol hefyd ganolbwyntio ar allbynnau a chanlyniadau, yn hytrach na mewnbynnau:

- A yw'r weithrediaeth yn mesur effeithiolrwydd neu effaith ei phenderfyniadau o ran dyrannu adnoddau a'i gwariant?
- A yw targedau a dangosyddion ariannol yn briodol o ystyried rhagolygon a sefyllfa tymor canolig y cyngor?
- A yw targedau'n cael eu cyflawni? A yw targedau'n gysylltiedig ag allbynnau neu ganlyniadau?
- A yw'r cyngor yn mesur 'gwerth cymdeithasol' ei wariant yn hytrach na'r 'gost ariannol' yn unig?

Yn ogystal ag asesu cadernid cynlluniau ariannol tymor canolig a chynlluniau tymor canolig eraill, dylai craffu ymwneud yn gynnar i ryw raddau ag asesu sut mae'r weithrediaeth yn mynd ati i integreiddio cynllunio gwasanaeth a chorfforaethol â chynllunio ariannol, gan brofi, er enghraifft:

- a yw gwahanol strategaethau a chynlluniau'n gyson;
- a yw'r cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth yn cael eu hysbysu'n briodol gan y strategaeth ariannol;
- a oes gan y weithrediaeth y wybodaeth ariannol briodol i seilio'r broses cynllunio gwasanaethau arni;
- a yw'r gyllideb flynyddol yn cael ei gosod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig;
- a oes goblygiadau ariannol sy'n codi o gynlluniau gwasanaeth; ac
- a yw targedau wedi'u cyflawni, a oes gorwariant neu danwariant ac, os felly, pam.

Dylai cynghorwyr craffu adolygu'r cynllun tymor canolig i sicrhau ei fod yn ddigon cadarn o ran cyflawni nodau, amcanion a blaenoriaethau'r weithrediaeth. Fodd bynnag, i fod yn effeithiol, bydd angen iddynt gael gwybodaeth am sefyllfa ariannol gyffredinol y cyngor a'r tybiaethau a wnaed wrth baratoi'r cynllun er mwyn bodloni eu hunain bod adnoddau'n symud i feysydd blaenoriaeth. Felly, mae'n bwysig



bod gweithwyr cyllid proffesiynol yn paratoi gwybodaeth nid yn unig am y sefyllfa ariannol gyffredinol yn y dyfodol, ond hefyd am ganlyniadau'r cynllun tymor canolig i wasanaethau. Mae hyn yn debygol o gynnwys cysoni gwybodaeth am gyllid â gwybodaeth am bolisi a pherfformiad. Gall hyn fod yn gymhleth, felly bydd angen cymorth ar gynghorwyr craffu i ddeall a gwerthuso'r cynllun tymor canolig. Gall craffu fod yn adnodd gwerthfawr hefyd wrth werthuso amryw flaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, gan wneud argymhellion i'r weithrediaeth a'r cyngor fel rhan o adolygiad cyffredinol y cyngor o'i flaenoriaethau gwario. Bydd y broses o gasglu'r data perfformiad ac ariannol hwn yn helpu gweithwyr cyllid proffesiynol i ddeall perfformiad gwasanaethau yn gyffredinol.

### **Materion strategol i'w hystyried**

Mae craffu ar y cynllun ariannol tymor canolig hefyd yn gyfle i edrych yn strategol ar faterion megis:

- a oes gan y cyngor y polisi priodol ar gyfer faint y mae angen iddo ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn?
- a yw'r dull cynllunio cyffredinol yn briodol i amgylchiadau'r cyngor?

### **Polisi cronfeydd wrth gefn**

Mae canllaw'r Comisiwn Archwilio 'Striking a balance: Improving councils' decision making on reserves' yn nodi rhai cwestiynau allweddol y dylai cynghorwyr craffu fod yn eu gofyn:

- Faint sydd gan y cyngor mewn cronfeydd wrth gefn a sut mae'n cymharu â chynghorau sydd ag amgylchiadau tebyg?
- Ar gyfer beth rydym ni'n dal cronfeydd wrth gefn? Beth yw'r risgiau neu'r cynlluniau gwario yn y dyfodol y mae'r cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn ar eu cyfer?
- A yw lefelau gwahanol gronfeydd wrth gefn y cyngor yn briodol i'r risgiau y mae'n eu hwynebu a graddfa ei gynlluniau gwario yn y dyfodol?

### **Dulliau eraill o gynllunio ariannol**

Gall craffu hefyd asesu a yw'r dull cyffredinol o gynllunio ariannol yn briodol i'r cyngor. Y ddau brif ddewis arall yn lle'r dull cynyddrannol 'traddodiadol' yw:

- **Cyllidebu ar sail sero:** Lle mae adnoddau'n cael eu dyrannu ar sail anghenion a'r effaith a ddisgwylir, yn hytrach na bod cyllidebau blaenorol yn cael eu dwyn ymlaen yn syml gyda chodiad ar gyfer chwyddiant. Mae'r angen i ddewis rhwng hawliadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd am adnoddau prin yn ysgogi gwneud penderfyniadau mwy effeithiol.
- **Cyllidebu ar sail blaenoriaeth:** Lle mae adnoddau'n cael eu dyrannu ar sail blaenoriaethau yn hytrach na chynsail. Gellid penderfynu ar flaenoriaethau trwy broses o ymgysylltu â'r gymuned leol, er enghraifft i benderfynu rhwng codiadau yn y dreth gyngor, cynnydd mewn ffioedd a thaliadau neu newidiadau i lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fel y nodwyd yn adolygiad 2014 Swyddfa Archwilio Cymru, 'Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru':

*'Mae caledi a galw cynyddol gan gwsmeriaid yn gorfodi cynghorau i ganolbwyntio eu hadnoddau ar feysydd blaenoriaeth ac i wneud penderfyniadau anodd. Gallai'r rhain fod yn benderfyniadau i: roi'r gorau i gyflawni gweithgareddau nad ydynt*

---

*yn cyfrannu at eu blaenoriaethau; lleihau gweithgareddau sy'n cael llai o effaith ar eu blaenoriaethau; neu nodi trefniadau cyflawni eraill a mwy effeithlon ar gyfer y gweithgarwch hwnnw y maent yn dewis parhau ag ef neu ei ehangu. Drwy flaenoriaethu adnoddau tuag at feysydd blaenoriaeth (gan gynnwys meysydd ar gyfer gwella), gall cynghorau ddangos ymrwymiad clir i ganolbwyntio adnoddau ac egni ar y camau hynny a fydd yn gwneud gwahaniaeth.'*

---

### **Arfer gorau: beth i chwilio amdano mewn cynllunio ariannol strategol**

- Mae pwyslais ar gyflawni blaenoriaethau corfforaethol yn amlwg trwy'r broses cynllunio ariannol. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn canolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau.
- Mae prosesau cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol wedi'u hintegreiddio.
- Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys mesurau canlyniadau, cynllunio senario, meincnodi, cynllunio adnoddau a manylion am weithio mewn partneriaeth.
- Mae cynlluniau ariannol blynyddol yn dilyn strategaeth ariannol tymor hwy'r awdurdod.
- Adolygir y cynllun ariannol tymor canolig a'r tybiaethau a wneir ynddo yn rheolaidd. Mae'r awdurdod yn ymateb i amgylchiadau sy'n newid ac yn rheoli ei risgiau ariannol.
- Mae'r awdurdod wedi cynnal dadansoddiad sensitifrwydd o'i fodel ariannol gan ddefnyddio ystod o dybiaethau economaidd.
- Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn gysylltiedig â strategaethau allweddol eraill, ac yn gyson â hwy, gan gynnwys strategaethau yn ymwneud â'r gweithlu.
- Gellir deillio dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y dyfodol o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun ariannol tymor canolig.
- Defnyddir Cyllidebu ar sail Sero i wella blaenoriaethu strategol yn ystod y cylch cynllunio ariannol.
- Mae trefniadau effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer rheoli'r trysorlys.

Ffynhonnell: Grant Thornton – Adolygiad Cydnerthedd Ariannol Llywodraeth Leol 2012 ('Towards a tipping point?')

---

### **Llunio'r gyllideb flynyddol**

Ar ôl adolygu'r cynllun tymor canolig, dylai cynghorwyr craffu symud ymlaen i archwilio'r tybiaethau sy'n sail i strategaeth y gyllideb flynyddol:

- A yw'n unol â'r dull cyffredinol – cynyddrannol, ar sail sero neu ar sail blaenoriaeth?
- Beth yw'r sail resymegol wrth wraidd y prif gynigion ar gyfer twf ac arbedion, a sut bydd twf yn cael ei ariannu?
- A yw goblygiadau ariannol cynigion gan adrannau a phwyllgorau wedi'u cynnwys yn y gyllideb gyffredinol?
- A yw lefel y cronfeydd wrth gefn yn briodol ac yn unol â'r cynllun tymor canolig?

---

Dyma rai pethau i'w cofio wrth ymateb i gynigion cyllidebol:

- Cyflwynwch eich gofynion yn gyntaf – yr hyn rydych chi am ei weld yn y gyllideb o ran cynnwys a fformat – yn hytrach nag aros i'r cynigion gyrraedd ac yna ymateb iddynt.
- Archwiliwch sut mae'r gyllideb yn cyfateb i fanifesto a chynllun corfforaethol y weithrediaeth – a yw'r dyraniad adnoddau'n adlewyrchu eu blaenoriaethau datganedig?
- Edrychwch ar brosesau yn ogystal â ffigurau penodol – gofynnwch sut mae'r weithrediaeth wedi dod i'r swm arfaethedig yn hytrach na cheisio dyfalu ai hwnnw yw'r swm cywir yn union.

Er mwyn sicrhau bod craffu'n ymwneud yn weithredol ag adolygu'r cynllun tymor canolog ac asesu a yw'r gyllideb flynyddol wedi'i gosod yn unol ag ef, dylai gweithwyr cyllid proffesiynol ddarparu cysylltiadau eglur rhwng y gyllideb flynyddol a "blwyddyn dau" y cynllun ariannol tymor canolog, gan esbonio'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ddogfen. Dylai'r cysylltiad rhwng cyllid a pherfformiad gael ei ddatgan yn eglur ym mhroses y gyllideb flynyddol hefyd. Mae llyfrau cyllideb traddodiadol yn annhebygol o ddarparu'r lefel briodol o wybodaeth i alluogi craffu i gysylltu dyraniadau cyllidebol, perfformiad a gwerth am arian. Mae cynhyrchu gwybodaeth ariannol fanwl heb ei chysylltu â data perfformiad yn arwain at ddull digyswllt o graffu ar wasanaethau a'r gyllideb.

Er bod llawer o waith craffu'n canolbwyntio ar y gyllideb referniw a'r dreth gyngor, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod proses y gyllideb flynyddol yn sefydlu cyllidebau cyfalaf a, lle y bo'n berthnasol, cyllidebau Cyfrif Referniw Tai ar gyfer tai cyngor. Dylai gweithwyr cyllid proffesiynol sicrhau bod cynghorwyr yn cael arweiniad digonol i'w galluogi i ymdrin â chyllidebau referniw a chyfalaf, a deall y cysylltiadau rhyngddynt. Mae hyn yn debygol o gynnwys prosesau arfarnu cadarn ar gyfer prosiectau cyfalaf ac achosion busnes. Gallai cynghorwyr craffu ddymuno adolygu achosion busnes o'r fath cyn eu cynnwys yn ffurfiol yn y rhaglen gyfalaf.

Dylid hefyd sicrhau bod gan y swyddogaeth graffu ddigon o adnoddau i alluogi'r aelodau i gynnal adolygiadau manwl o wasanaethau neu feysydd polisi yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae adolygiadau o'r fath yn debygol o arwain at gais am wybodaeth fanylach am gostau unedol a gwerth am arian, ac mae'n debygol y gofynnir i weithwyr cyllid proffesiynol ddarparu a dehongli gwybodaeth o'r fath. Dylai adrannau cyllid ystyried eu capasiti eu hunain i ddarparu adnoddau ar gyfer adolygiadau craffu manwl o wasanaethau, ac yn aml bydd angen i weithwyr cyllid proffesiynol ddarparu mwy o wybodaeth a chymorth i adolygiadau craffu. Dylai swyddogion cyllid weld budd o gymryd rhan oherwydd bydd yn eu helpu i gael gwybod pa gynigion sy'n wleidyddol ymarferol trwy eu cyflwyno i safbwyntiau a syniadau eraill.

# Craffu a rheolaeth ariannol

---

Mae rheolaeth ariannol mewn cynghorau yn canolbwyntio'n bennaf ar y gyllideb flynyddol. Proses dreigl yw proses y gyllideb mewn cynghorau – yn y rhan fwyaf o gynghorau, nid yw byth yn dod i ben. Felly, ni all craffu cadarn fod yn ddigwyddiad untro a gynhelir yn union cyn i'r dreth gyngor gael ei gosod: mae'n anrffod y bydd gormod i'w ystyried, dim digon o amser, a dim cyd-destun go iawn. Mae'n rhaid iddo ddigwydd drwy gydol y flwyddyn, lle bynnag neu bryd bynnag y mae polisïau allweddol sydd â goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried neu eu hadolygu. Mae herio pa mor dda y mae'r weithrediaeth yn rheoli'r gyllideb yn broses barhaus.

## Monitro'r gyllideb

Mewn rhai cynghorau, bydd craffu'n gwneud sylwadau ar gynigion ar gyfer y gyllideb gyffredinol neu lefelau arfaethedig y dreth gyngor; mewn eraill, ni fydd craffu'n gwneud hyn. Fodd bynnag, waeth beth fo'r manylion, dylai fod fframwaith eglur sy'n sicrhau bod craffu'n ymwneud â monitro ariannol, i ryw raddau, drwy gydol y flwyddyn, er enghraifft:

---

<b>Mehefin/Gorffennaf</b>	Ystyried diwygiadau i gyllideb y flwyddyn gyfredol, pwysau a materion allweddol yn sgil datganiadau ariannol drafft y flwyddyn flaenorol
<b>Medi/Hydfref</b>	Ystyried cynigion gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, twf ac arbedion, a monitro parhaus ar gyfer eleni ac alldro yn erbyn y gyllideb
<b>Tachwedd/Rhagfyr</b>	Setliad dros dro, ac ymateb a chynigion diwygiedig y weithrediaeth
<b>Ionawr/Chwefror</b>	Craffu ar gynigion terfynol y gyllideb


---

Gallai monitro gynnwys adolygu cynnydd o ran targedau twf ac arbedion, rhagolygon diwygiedig, ac amcanestyniadau – beth sy'n debygol o newid, beth sy'n annhebygol ond yn bosibl? Ni ddylai craffu fod yn gwneud gwaith y weithrediaeth: dylai fod yn herio effeithiolrwydd rheolaeth y weithrediaeth ar y gyllideb a gofyn cwestiynau am yr hyn sydd wrth wraidd amrywiannau.

Mae rhai cynghorau'n defnyddio crynodebau gwybodaeth, adroddiadau eithrio, neu system goleuadau traffig – sy'n amlygu rhybuddion cynnar o newidiadau allweddol, camau a gymerwyd neu a gynigir, ymrwmiadau y cychwynnir arnynt a bylchau sy'n dod i'r amlwg. Swyddogion sy'n bennaf gyfrifol am fonitro'r gyllideb yn fanwl, gan adrodd i ddeiliad y portffolio a/neu'r cabinet. Dylai cynghorwyr craffu sicrhau eu hunain bod monitro ariannol effeithiol yn cael ei wneud, trwy gynnal adolygiadau ad hoc fel y bo'r angen.

Gallai cynghorwyr craffu hefyd ddymuno cynnal adolygiad o berfformiad a pha mor dda y mae'r gyllideb wedi'i rheoli:

- A gyflawnwyd allbynnau a chanlyniadau arfaethedig gwasanaethau?
- A yw'r cyngor wedi rheoli ei adnoddau'n effeithiol trwy gydol y flwyddyn?
- Pam y ceir tanwariant neu orwariant?
- Beth a gyflawnwyd yn sgil adnoddau ychwanegol?
- Beth yw effaith alldro eleni ar gyllid y cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf?



---

Dyma rai pethau pwysig i'w cofio wrth graffu ar gyllideb:

Mae craffu'n digwydd mewn amgylchedd gwleidyddol – peidiwch ag efelychu archwiliad a pheidiwch ag anwybyddu'r elfen wleidyddol.

Peidiwch ag ofni gofyn am wybodaeth fanylach neu gliriach, ond byddwch yn strategol ynghylch pa wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani. Gofynnwch am wybodaeth a fydd yn eich helpu i ateb cwestiwn ac mewn fformat a fydd yn ddefnyddiol, yn hytrach na gwneud ceisiadau cyffredinol yn y gobaith y byddwch yn cael yr ateb.

Chwiliwch am dueddiadau a themâu dros amser neu ar draws gwahanol benawdau cyllidebol.

Cadwch lygad am rifau cyfan, gan eu bod yn aml yn arwydd o fantoli yn hytrach na chyllidebu ar gyfer diben penodol.

Peidiwch â chyfyngu eich gwaith craffu i asesu a ddarparwyd y gwasanaethau o fewn y gyllideb a ddyrannwyd. Edrychwch ar effaith y gwariant – beth a gyflawnwyd?

Defnyddiwch gyngor arbenigol annibynnol os gallwch. Mae'n darparu awdurdod ac yn helpu i feithrin hyder mewn argymhellion.

Nid oes y fath beth â chwestiwn twp, yn enwedig os yw'n dechrau gyda'r gair 'pam'.

---

### **Cael trosolwg o brosesau a chyfrifoldebau ariannol sylfaenol y cyngor**

Fel arfer, bydd cyfansoddiad y cyngor yn datgan yn eglur bod monitro'r gyllideb yn cael ei ddirprwyo'n bennaf i reolwyr cyllideb, ac mai'r deiliad portffolio perthnasol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gyllideb a rheolaeth dros ei (g)wasanaethau ef/hi. Dylai Cynllun Dirprwyo a Gorchmynion Sefydlog Ariannol y Cyngor nodi'r cyfrifoldebau hyn mewn ffordd eglur a thryloyw.

Felly, nid yw fel arfer yn ddefnydd effeithiol o amser craffu i gynnal gwaith monitro manwl ychwanegol o'r gyllideb. Yn hytrach, gallai cynghorwyr craffu gael sicrwydd bod y prosesau a'r cyfrifoldebau'n eglur ac yn cael eu cyflawni, gwirio bod gwaith monitro'r gyllideb yn cael ei wneud, a chynnal adolygiadau ad hoc fel y bo'r angen, er enghraifft, ynghlŷn â gorrariant neu danwariant sylweddol. Mae'n hollbwysig bod lefel y manylion yn briodol – bydd gwybodaeth fanwl wedi'i rhestru fesul llinell yn cymylu'r broses graffu a'i gwneud yn fwy anodd i gynghorwyr weld y darlun llawn.

---

### **Astudiaeth Achos – Cyngor San Helen: Cyfraniad craffu at y drefn arferol o fonitro'r gyllideb**

Mae Cyngor Bwrdeistref San Helen wedi sefydlu Panel Trosolwg a Chraffu Archwilio a Monitro Ariannol sy'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn ategu'r gwaith craffu ar y gyllideb flynyddol a wneir gan Gomisiwn Trosolwg a Chraffu'r cyngor, trwy adolygu darpariaeth canlyniadau gwasanaethau a'r gyllideb. Mae hefyd yn craffu ar adroddiadau Archwilio Mewnol ochr yn ochr â chanlyniadau cyllid a pherfformiad er mwyn cael dealltwriaeth eang o berfformiad y cyngor, gan sicrhau safbwynt cynhwysfawr sy'n ategu gwaith Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r cyngor.

---

Mae'r Panel yn cyfarfod wyth gwaith y flwyddyn. Mae'n derbyn Adroddiadau Ariannol Corfforaethol chwarterol sy'n darparu diweddariad ar sefyllfa ariannol y cyngor, gan ymdrin â gweithgarwch refeniw a chyfalaf, cronfeydd wrth gefn a balansau a rheoli'r trysorlys. Mae hefyd yn derbyn Adroddiadau Cyllideb a Pherfformiad chwarterol sy'n cyflwyno canlyniadau ariannol allweddol ar ffurf naratif ynghyd â chrynodeb o berfformiad sy'n ymdrin â Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac yn cynnwys camau gweithredu allweddol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yr adroddwyd arnynt. Ystyrir yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddaraf ym mhob cyfarfod hefyd.

Yn ogystal, er mwyn helpu i feithrin diwylliant craffu, mae Adroddiadau Cyllideb a Pherfformiad misol (sef fersiwn lai manwl o'r adroddiad chwarterol) ar gael i bob cynghorydd. Diben hyn yw sicrhau bod cynghorwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae gwariant yn cyfateb i bolisiâu, ac yn dod yn gyfarwydd â thrafod rhifau. Mae dealltwriaeth gyffredinol cynghorwyr o wybodaeth ariannol, a'i darllenadwyedd, wedi'u hamlygu fel rhwystrau allweddol rhag craffu ariannol effeithiol, ac mae rhaglen hyfforddiant wedi'i datblygu i fynd i'r afael â hyn.

Cynhelir sesiynau hyfforddi anffurfiol byr cyn pob cyfarfod Panel i roi cyfle i gynghorwyr wella eu dealltwriaeth o unrhyw feysydd y maent yn aneglur ynglŷn â hwy. Yn ystod y 18 mis diwethaf, darparwyd hyfforddiant ar System Monitro Perfformiad y cyngor hefyd. Sesiynau ymarferol yw'r rhain ynglŷn â sut i gael mynediad at wybodaeth gyfredol am berfformiad a chael y diweddaraf am danwariant/gorwariant gwasanaethau, sylwi ar dueddiadau ac amlygu meysydd lle y ceir perfformiad da/tanberfformiad. Roedd yr hyfforddiant hwn wedi'i fwriadu ar gyfer cynghorwyr craffu yn wreiddiol, ond mae wedi'i ymestyn i bob cynghorydd erbyn hyn. Darperir cymorth swyddogion ar gyfer pob cyfarfod a sesiwn hyfforddi anffurfiol ar lefel Trysorydd Cynorthwyol.

Yn ogystal, darperir sesiynau briffio ar broses y cyngor ar gyfer gosod y gyllideb cyn cyfarfod y cyngor i ystyried y gyllideb flynyddol.

Mae sefydlu'r Panel a natur gyd-destunol y wybodaeth ariannol a gyflwynir iddo wedi rhoi dealltwriaeth ddyfnach o lawer i gynghorwyr o'r hinsawdd y mae'n gweithredu ynddi. Mae'r Panel yn gofyn am adroddiadau atodol yn rheolaidd ac yn galw swyddogion i mewn i esbonio meysydd lle y ceir tanberfformiad. Darperir dolen adborth i'r weithrediaeth trwy eitem sefydlog ar agenda'r cabinet i fynd i'r afael â materion sy'n codi yn sgil craffu. Ceir eitem sefydlog hefyd ar agenda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried adroddiad Cadeirydd y Panel ar eitemau y craffwyd arnynt, sy'n amlygu materion y mae'r Panel yn dymuno eu dwyn i sylw'r pwyllgor.

---

Mae bron yn sicr y bydd angen ailddyrranu adnoddau i gyflawni nodau ac amcanion y cyngor, felly dylai cynlluniau ariannol a chyllidebau ddangos yn glir y cysylltiad rhwng yr hyn y mae'r cyngor yn bwriadu ei gyflawni ac ar beth y mae'n gwario ei arian. Cyllid yw un o'r adnoddau pwysicaf sydd ar gael i'r cyngor, felly mae hefyd yn hollbwysig bod cysylltiad yn cael ei wneud rhwng yr angen i fantoli'r gyllideb a gwneud arbedion effeithlonrwydd, a chanlyniadau hyn ar wasanaethau o ran eu perfformiad a chyflawni canlyniadau.

Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff y wybodaeth ei chyflwyno yr un mor bwysig â'i natur. Er enghraifft, mae cyllid llywodraeth leol yn llawn terminoleg a jargon, felly mae'n hanfodol bod gweithwyr cyllid proffesiynol nid yn unig yn darparu hyfforddiant, ond hefyd yn ystyried yn benodol a yw adroddiadau a gwybodaeth yn anhreiddiadwy, a hynny'n ddiangen, oherwydd eu hiaith. Un dull yw defnyddio adolygiadau "eglwyr a phlaen" o wybodaeth ariannol, ac mae llawer o gynghorau



---

bellach yn defnyddio'r system "goleuadau traffig" ar gyfer gwybodaeth ariannol yn ogystal â gwybodaeth am berfformiad.

Dylai gweithwyr cyllid proffesiynol fod yn rhagweithiol wrth ymateb i anghenion gwybodaeth cynghorwyr craffu. Yn aml, 'nid yw cynghorwyr yn gwybod beth nad ydynt yn ei wybod', ac mae'n bosibl na fyddant yn y sefyllfa orau i ofyn am y data a fyddai'n diwallu eu hanghenion orau. Mae angen amser, lle a chymorth arnynt i fagu hyder er mwyn iddynt allu cymryd cyfrifoldeb am eu hanghenion gwybodaeth a chomisiynu data yn unol â hynny. Dylai cynghorwyr craffu ofyn am adroddiadau sy'n integreiddio cyllid a pherfformiad, ac ni ddylent ofni rhoi gwybod i swyddogion os nad ydynt yn cael data a gwybodaeth sy'n diwallu eu hanghenion.

---

### **Arfer gorau – beth i chwilio amdano ym maes rheolaeth ariannol**

- Mae'r cyngor yn gweithredu o fewn lefel briodol o gronfeydd wrth gefn a balansau a bennwyd yn lleol.
- Mae balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei gynnal ar y lefel leiaf y cytunwyd arni'n lleol, neu'n uwch na hynny.
- Mae'r cyfalaf gweithio ar gymhareb a osodwyd gan y swyddog Adran 151, neu'n uwch na hynny.
- Ceir lefelau hydrin o fenthycia tymor hir o fewn terfynau benthycia darbodus.
- Mae targedau wedi'u gosod ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â dangosyddion allweddol, fel balansau cronfeydd wrth gefn a dangosyddion darbodus.
- Mae gan yr awdurdod hanes o wario o fewn y gyllideb a rheoli gorwariant a ragwelir mewn ffordd ragweithiol yn ystod y flwyddyn.

Ffynhonnell: Grant Thornton – Adolygiad Cydnerthedd Ariannol Llywodraeth Leol 2012 ('Towards a tipping point?')

---



# Craffu a'r agenda effeithlonrwydd

---

Mae 'cynildeb' wedi gosod arbedion ac effeithlonrwydd ar agenda pob cyngor. Gall craffu gyflawni swyddogaeth allweddol wrth ddylanwadu ar wella perfformiad, darparu effeithlonrwydd a chyflawni canlyniadau a gynlluniwyd mewn cynlluniau arbedion. Mae graddau'r her ariannol a'r effaith bosibl ar wasanaethau lleol yn golygu bod ymgysylltu â chymunedau ynglŷn â dewisiadau ar gyfer gwario ac arbedion effeithlonrwydd yn hollbwysig.

Wrth gefnogi ymdrechion cynghorau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, gall craffu gyfrannu trwy:

- ystyried effaith cynigion ar gyfer arbedion;
- monitro'r broses o gyflawni cynlluniau arbedion y cytunwyd arnynt; ac
- adolygu canlyniadau prosiectau effeithlonrwydd a 'buddsoddi i arbed' a modelau darparu amgen.

## Ystyried effaith cynigion ar gyfer arbedion

Yn ôl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, sef 'Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru' (Ionawr 2014), 'nid yw trefniadau bron bob cyngor yng Nghymru i werthuso effaith eu cynlluniau arbedion ar ddinasyddion wedi'u datblygu'n ddigonol'. Adroddodd hefyd fod lleiafrif bach nad oeddent yn gallu nodi effaith eu penderfyniadau a'r newidiadau a wnânt i ddarparu gwasanaethau. Edrychodd adroddiad 2011 y Comisiwn Archwilio, sef 'Tough Times: Councils' responses to a challenging financial climate review', ar ymatebion cynghorau i fesurau cynildeb yn Lloegr. Canfu nad oedd cysylltiad rhwng graddau effeithiau ar wasanaethau a maint toriadau, a daeth i'r casgliad mai gwneud penderfyniadau da yn lleol oedd y ffactor allweddol ar gyfer rheoli effaith gostyngiadau cyllidebol ar wasanaethau. Felly, dylai cynghorwyr craffu geisio sicrwydd bod cynlluniau ar gyfer arbedion wedi rhoi ystyriaeth lawn i effaith gostyngiadau arfaethedig fel rhan o strategaeth gydlynol a ategir gan benderfyniadau cadarn.

## Monitro'r broses o gyflawni cynlluniau arbedion y cytunwyd arnynt


Ni ddylai craffu ddyblygu rôl fonitro'r cabinet. Yn hytrach, dylai ofyn cwestiynau allweddol fel:

- A yw'r cynllun arbedion yn cael ei reoli'n briodol gydag adnoddau digonol?
- Os oes amrywiannau mawr neu niferus i'r cynllun, beth mae hyn yn ei awgrymu am strategaeth gyffredinol y cyngor?
- A yw effaith arbedion ar wasanaethau yn fwy neu'n llai nag a ddisgwyliwyd?
- A oes angen cynnal adolygiad ad hoc o amrywiant penodol a/neu effaith annisgwyl o'r cynllun arbedion?

---

## Astudiaeth Achos – Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr: Adolygu cynigion ar gyfer arbedion

Ers 2008, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi sefydlu Panel Ymchwil a Gwerthuso blynyddol sy'n gyfrifol am ystyried cynigion cyllidebol drafft ei Gabinet. Cyfansoddwyd y panel hwn fel panel trafod a chynghori ar gyfer y Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol a



Gwelliant (CRI) ac, yn hanesyddol, roedd yn cynnwys tri Aelod o'r CRI ynghyd â Chadeiryddion pedwar Pwyllgor Craffu arall y Cyngor.

Mae'r broses wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd ac wedi datblygu bob blwyddyn wrth iddi gael ei mireinio a'i diwygio. Mae'r broses hon wedi galluogi aelodau i ddadansoddi cynigion mewn perthynas ag ailffurfio gwasanaethau penodol fel rhan o Raglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr ac adolygu cynigion cyllidebol manwl er mwyn cynorthwyo pwyllgorau craffu i ddarparu her a gwneud argymhellion i'r Cabinet. O ganlyniad, nid yw dadleuon fel arfer yn codi yng nghyfarfod y Cyngor i osod y gyllideb, gan fod y materion wedi'u trafod yn ystod y broses graffu rhwng mis Hydref a mis Ionawr.

Mae'r Panel yn weithredol o fis Hydref hyd at fis Chwefror yn bennaf, ac yn dilyn y broses ganlynol:

- Mae'r Panel yn gweld y cynigion ar gyfer y gyllideb yn gynnar (Hydref)
- Mae'r Panel yn cyfarfod â'r Bwrdd Rheolaeth Gorfforaethol a'r Cabinet i drafod (Tachwedd)
- Mae cynigion ar gyfer y gyllideb yn mynd i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gydag arsylwadau gan y Panel (Rhagfyr)
- Mae'r Pwyllgor CRI yn cydlynu sylwadau pob Pwyllgor ac yn anfon un adroddiad gydag argymhellion at y Cabinet (Ionawr)
- Mae'r Cabinet yn cytuno ar y cynigion ar gyfer y gyllideb (Ionawr/Chwefror)
- Mae'r gyllideb yn cael ei gosod gan y Cyngor (Chwefror/Mawrth)

Diwygiwyd y broses hon ymhellach yn 2013, ac mae'r panel wedi bod yn cyfarfod drwy gydol y flwyddyn i edrych ar rai o'r cynigion arwyddocaol ar gyfer arbedion sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r strategaeth ariannol tymor canolig. Mantais hyn yw bod Aelodau'n cael gweld rhai cynigion yn gynnar a datblygu dealltwriaeth lawnach o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r awdurdod, a bod swyddogion yn cael syniad cynnar o ba gynigion allai fod yn dderbyniol a pha rai yr ystyrir nad oes modd eu cyfiawnhau. Oherwydd y cysylltiadau â'r strategaeth ariannol tymor canolig, ystyriwyd y cynigion cyllidebol penodol ar gyfer 2014-15 gan y Panel hwn hefyd.

Wrth ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â gostyngiadau parhaus yn y gyllideb, cydnabu Aelodau Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP) 2013-14 fod angen mabwysiadu ymateb 'Cyngor cyfan' i reoli toriadau disgwylidig i wasanaethau yn wyneb galw cynyddol, diwygiadau i'r sector cyhoeddus a'r rhagolwg ariannol heriol.

Argymhellwyd bod BREP Sefydlog yn cael ei greu fel gweithgor sefydlog i alluogi'r Aelodau i gynnal trafodaethau mwy ystyrion ar gynigion cyllidebol yn ogystal â chynnwys gwybodaeth gymunedol a gafwyd yn sgil eu rôl gynrychiadol a chyfrannu at ffurfio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. Cefnogwyd yr argymhelliad hwn gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a Gwelliant a'r Cabinet fel rhan o broses ymgynghori ar gyllideb ddrafft 2013-14.

Cytunwyd y byddai pob pwyllgor craffu'n enwebu dau aelod i wasanaethu ar y BREP Sefydlog. Prif ddiben y dull hwn oedd:

- cael trosolwg ac asesiad manwl o'r cynigion ar gyfer y gyllideb lle mae'r arbenigedd a'r wybodaeth sy'n ymwneud â phob un o feysydd gwasanaeth y Pwyllgor yn cyfrannu at ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad corfforaethol o'r cynigion cyllidebol drafft;
- cynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu cyllideb ar gyfer 2014-15 sy'n ceisio bodloni anghenion cymunedau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- hwyluso dealltwriaeth fwy cadarn o'r broses o osod y gyllideb a'r cynigion drafft er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgorau i wneud sylwadau gwybodus, herio'n adeiladol neu gyflwyno argymhellion i'r Cabinet fel rhan o'r broses ymgynghori ynglŷn â'r gyllideb;

- 
- cyflawni cydsyniad ynglŷn â chyfeiriad y gyllideb dros gyfnod y strategaeth ariannol tymor canolig. Mae Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i datblygu i gyflawni gostyngiadau cyllidebol yn y dyfodol ar gyfer 2014-15 hyd at 2016-17, ac mae hyn wedi'i gynnwys mewn prosesau craffu er mwyn sicrhau atebolrwydd a goruchwyliaeth o'r broses.

Mae ymgynghori â Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn y ffordd hon wedi galluogi'r Cyngor i weithio tuag at y canlyniadau cadarnhaol canlynol:

- Mwy o ddealltwriaeth o'r broses o osod y gyllideb ymhlith Aelodau Anweithredol;
- Cyfraniad gwell gan Aelodau at y broses o osod y gyllideb flynyddol;
- Cynrychiolaeth ehangach o anghenion cymunedol mewn trafodaethau sy'n ymwneud â newidiadau disgwylidig i wasanaethau.

Mae'r BREP Sefydlog wedi cyfarfod sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ac wedi archwilio, trwy gyfrwng cyfweiliadau lled-strwythuredig â Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth, ddewisiadau rheoli sy'n llywio datblygiad cynigion drafft y Cabinet o ran cynigion sy'n ymwneud ag adolygiadau tymor canolig a thymor hwy sy'n benodol gysylltiedig â Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â Gostyngiadau Cyllidebol a Phwysau Cyllidebol ar gyfer 2014-15.

Roedd pob Cadeirydd ac aelod enwebedig o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi cyfrannu eu gwybodaeth a oedd yn benodol i'w gwasanaeth a'u Pwyllgor at y broses. O ganlyniad, cafodd y BREP Sefydlog ddealltwriaeth ehangach o'r goblygiadau tebygol a oedd yn gysylltiedig â'r cynigion a gyflwynwyd.

Cynorthwywyd y broses hon gan gyfraniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau a'r Pennaeth Cyllid a Pherfformiad, a oedd yn bresennol i roi cyngor i'r BREP Sefydlog yn y sesiynau cyfweild. Roedd hyn wedi galluogi'r Cabinet i ystyried ei gynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2014-15 ar 10 Rhagfyr 2013.

---

### **Adolygu canlyniadau prosiectau effeithlonrwydd a modelau darparu amgen**

Mae cynghorau'n ymgymryd â phrosiectau penodol i wireddu effeithlonrwydd, gan gynnwys mentrau 'Buddsoddi i Arbed' a defnyddio modelau darparu amgen fel gwasanaethau a rennir a llunio contractau â darparwyr allanol. Gall craffu gyfrannu at raglen arbedion gyffredinol y cyngor trwy gynnal adolygiadau o ganlyniadau mentrau o'r fath, gan ofyn cwestiynau fel:

- A oedd yr amcanion wedi'u diffinio'n eglur?
- A yw'r amcanion hyn wedi'u cyflawni?
- Os na, sut mae'r cabinet yn bwriadu unioni hyn?
- Pa elfennau o'r prosiect oedd yn llwyddiannus?
- Beth nad oedd mor llwyddiannus?
- Beth arall ydym ni wedi'i dysgu?
- A yw'r holl arbedion disgwylidig wedi'u cyflawni?
- Os na, a gynhaliwyd adolygiad i ganfod pam?
- A oedd y partneriaid dan sylw wedi cymryd rhan yn llawn?
- Os na, pa gamau unioni sydd ar gael i ni?

# Cyfranogiad dinasyddion

---

## Cyflwyno ac egluro cyllid i'r cyhoedd

Gall craffu ariannol cadarn gyflwyno ac egluro proses gyllideb y cyngor i'r cyhoedd, y mae eu trethi'n cael eu gwario. Gall craffu ariannol ehangu dealltwriaeth o gyllid llywodraeth leol a rheolaeth ariannol, gan wella tryloywder ac atebolrwydd ynglŷn â sut y gwneir dewisiadau am beth i'w wario.

Pan fydd cynghorwyr yn fwy hyderus ynglŷn â phrosesau ariannol cynghorau, gallant hwyluso cyfranogiad y cyhoedd yn fwy effeithiol mewn penderfyniadau y mae'n rhaid i gynghorau eu gwneud ynglŷn â blaenoriaethau, costau, cynhyrchu incwm a lefelau'r dreth gyngor.

## Pwysigrwydd cyfranogiad y cyhoedd

Un o'r pedair egwyddor ar gyfer craffu cyhoeddus effeithiol a amlinellwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus yw y dylai gryfhau lleisiau'r cyhoedd a chyfleu eu pryderon. Mae graddau'r gostyngiadau i gyllid sy'n wynebu cynghorau yng Nghymru yn golygu bod yr egwyddor hon yn bwysicach nag erioed. Mae Adran 62 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod cynghorau yng Nghymru yn galluogi pawb sy'n byw neu'n gweithio yn eu hardal i gyflwyno'u safbwyntiau i bwyllgorau craffu, a bod yn rhaid iddynt hwythau gymryd y safbwyntiau hyn i ystyriaeth. Yn ogystal, mae Egwyddorion Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wedi'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhai sy'n cynnig cyfres gyson o egwyddorion a safonau da ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd (<http://www.participationcymru.org.uk/national-principles>).

Deialog yw craffu yn y bôn, ac mae'n cynnig cyfle i gysylltu cynghorau â'r cyhoedd trwy gydol y cylch gwleidyddol, nid dim ond ar adeg etholiad. Mae ystod o ddewisiadau'n bodoli ar gyfer casglu ac ymateb i safbwyntiau'r cyhoedd.

Mae 'The Civic Square and the Public Triangle' (Barry Quirk, y Sefydliad ar gyfer Llywodraeth, Chwefror 2014) yn amlinellu fframwaith cysyniadol a allai fod yn ddefnyddiol i gynghorwyr craffu wrth ystyried sut i sicrhau cyfranogiad y cyhoedd.

- **Y Sgwâr Dinesig** – arena, llwyfan neu fan lle y cynhelir deialog gyhoeddus ynglŷn â phroblemau polisi cyhoeddus cymhleth. Arena sy'n cael ei chreu gan awdurdodau cyhoeddus i ategu deialog gyhoeddus gynhwysfawr ynglŷn â newidiadau i seilwaith cyhoeddus, nwyddau cyhoeddus, gwasanaethau cyhoeddus a phroblemau cyhoeddus.
- **Y Triongl Cyhoeddus** – fframwaith ar gyfer ategu deialog gyhoeddus sy'n cynrychioli tri phwynt triongl; dyma'r tri chwestiwn allweddol ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw broblem gyhoeddus gymhleth. Yn gyntaf, beth yw'r 'buddiant cyhoeddus'? Yn ail, beth yw'r ffordd orau o wireddu 'gwerth cyhoeddus'? Ac, yn drydydd, beth yw gofynion 'rheswm cyhoeddus' wrth ddatrys y broblem hon?

Gall cynghorau ddefnyddio craffu fel cyfrwng i gynnwys y cyhoedd mewn trafodaethau ynglŷn â phroblemau cyhoeddus a'r hyn y mae angen ei flaenoriaethu o ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwys i ddulliau ymgynghori â'r cyhoedd, fel bod penderfyniadau am y gyllideb yn cael eu seilio ar ddewisiadau cyhoeddus a ystyriwyd yn briodol.

---

## Cynnwys y cyhoedd mewn craffu ariannol

### Cyfyngau cymdeithasol

Mae'r rhyngwyd a chyfyngau cymdeithasol yn cynnig mwy o gyfle nag erioed i drigolion a rhanddeiliaid gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, gan gynyddu dilysrwydd ac atebolrwydd penderfyniadau. Gall efelychiadau cyllideb ar-lein helpu pobl i wneud dewisiadau am flaenoriaethau gwario. Mae systemau fel 'You Choose' gan MORI yn galluogi pobl i weld canlyniadau dewisiadau, gan hybu lefel fwy gwybodus o gyfranogiad gan y cyhoedd. Mae rhwydweithiau cymdeithasol fel YouTube neu Facebook yn cynnig ffyrdd o ymgynghori ar y gyllideb trwy gyflwyniadau gyda dolenni i ragor o wybodaeth a chyfleoedd i roi adborth.

<http://www.youtube.com/watch?v=53ipajXeF0s>

<http://www.youtube.com/watch?v=L6GvT4JinMc>

### Cyfranogi ar y cyd

Mae Cyllidebu Cyfranogol a Chyllidebu ar sail Blaenoriaeth yn ffyrdd systematig i bobl gymryd rhan mewn prosesau cynllunio ariannol. Mae pobl a grwpiau o bob rhan o'r gymuned yn trafod a phleidleisio ar flaenoriaethau a gwariant ar gyfer rhan o'r gyllideb flynyddol, neu'r cyfan ohoni, a rhoddir rôl i bobl leol hefyd mewn craffu a monitro.

Mae gan y Rhwydwaith Cyllidebu Cyfranogol ([www.pbnetwork.org.uk](http://www.pbnetwork.org.uk)) wybodaeth, astudiaethau achos ac adnoddau ynglŷn ag arferion cyfredol ym maes Cyllidebu Cyfranogol.

---


## Astudiaeth Achos – Cyngor Sir Gaerfyrddin: Ymgynghori effeithiol â'r cyhoedd ynglŷn â chynigion ar gyfer y gyllideb

Yn sgil y newid yng ngwariant y sector cyhoeddus, a graddau'r arbedion a oedd yn ofynnol, cytunwyd bod angen cynnal ymgynghoriad mwy trylwyr a helaeth ar gyfer y broses o osod cyllideb 2014-17 nag a gynhaliwyd yn y gorffennol. O ran ymgynghoriad 2014-17, dechreuodd y trafodaethau i sefydlu methodoleg oddeutu mis Mehefin 2013.

Datblygwyd y dull o ymgynghori ar y gyllideb gan grŵp prosiect, a arweiniwyd ar y cyd gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol, a'r Pennaeth Cyllid. Cafodd camau gweithredu arfaethedig y grŵp prosiect eu gorfodi ar adegau priodol o'r broses, trwy gyfeirio at Fwrdd Gweithredol y Cyngor ('y cabinet').

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r gyllideb ar 16 Hydref 2013, cynhaliwyd seminar ar gyfer yr holl aelodau ar 21 Hydref i bennu derbynoldeb pob un o 51 cynnig y Cyngor ar gyfer y gyllideb. Dangosodd y broses fod cefnogaeth i bob un o'r cynigion, er hynny i raddau amrywiol, a oedd yn awgrymu eu bod oll yn werth eu hystyried yn gyhoeddus. Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol (y Cabinet) ganlyniadau'r seminar aelodau a chytunodd ymgynghori'n gyhoeddus ar y cynigion. Cynhaliwyd hyn o 18 Tachwedd 2013 hyd at 3 Ionawr 2014.

Rhodddwyd crynodeb cynhwysfawr o'r holl gynigion ar gyfer arbedion effeithlonrwydd i'r ymgynghoreion, a oedd yn cynnwys: cyllideb briodol ar gyfer y gwasanaeth, arbediad tair blynedd dangosol; disgrifiad o'r cynnig; a'r effaith debygol ar y gwasanaeth. Llwyddwyd i gael cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i alluogi'r ymatebwyr i lunio barn resymegol a gwybodus, a'r posibilrwydd o'u gorlethu.



Roedd yn rhaid i'r rhaglen ymgynghori ar y gyllideb gydymffurfio â nifer o raddfeydd amser allweddol, yr oedd llawer ohonynt y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y grŵp prosiect. Y prif raddfeydd amser allweddol, sefydlog, oedd: yn gyntaf, cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â setliad y gyllideb (16 Hydref 2013); ac, yn ail, cyfarfod y Cyngor i drafod a chytuno ar y gyllideb (19 Chwefror 2014). Darparodd hyn gyfnod ar gyfer cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus, er bod ystyriaethau eraill yn bwysig hefyd o ran cyfyngu ar yr union gyfnod ymgynghori, fel yr ymhelaethir isod.

Datblygwyd dewisiadau ar gyfer arbedion yn ystod mis Medi 2013, ond dim ond ar ôl i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r gyllideb gael ei wneud (gan amlygu graddau'r arbedion oedd yn ofynnol), y gallai'r broses drafod lawn ddechrau. Roedd angen i'r seminar aelodau gael ei chynnal cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac yna cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol i orfodi'r ymgynghoriad cyhoeddus. Pennwyd dyddiad o 17 Tachwedd ar gyfer lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus, a chyn hynny cynlluniwyd a chynhyrchwyd arolwg, datblygwyd deunydd cyhoeddusrwydd, a threfnwyd sioeau teithiol a digwyddiadau i randdeiliaid.

Ar ben arall y broses, roedd angen gweithio'n ôl o gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2014. I gyrraedd y pwynt hwn, roedd angen i ganlyniadau'r ymgynghoriad ar y gyllideb gael eu hystyried, yn gyntaf, gan y Tîm Rheolaeth Gorfforaethol ac, yn ail, gan y Bwrdd Gweithredol. Trwy weithio'n ôl, a chaniatáu cyfnod byr ar gyfer dadansoddi data, pennwyd dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad (dydd Gwener 3 Ionawr).

Cafodd cynnydd ei fonitro gan y grŵp prosiect, a gyfarfu'n rheolaidd. Cydnabyddir bod y dyddiadau allweddol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, a phrosesau'r Cyngor, yn rhyngweithio i gynyddu cymhlethdod y broses o ddatblygu'r gyllideb ac ymgynghori'n gyhoeddus arni, a oedd eisoes yn ddyrs.

Y Grŵp Prosiect oedd yn bennaf gyfrifol am reoli'r ymgynghoriad, gyda thasgau wedi'u neilltuo i swyddogion priodol. Roedd y grŵp yn cynnwys arbenigwyr ymgynghori ac ymgysylltu 'mewnol'. Roedd penderfyniadau allweddol yn cael eu trafod a'u cadarnhau gan y grŵp prosiect. Mae cyfansoddiad y grŵp prosiect – a oedd yn cynnwys uwch swyddogion ariannol a pholisi – yn tystio i'r pwysigrwydd a roddwyd i'r ymgynghoriad. Yn ogystal, defnyddiwyd arbenigedd a chymorth fel y bo'r angen, gan gynnwys:

- Yr Is-adran Gyfathrebu, yn enwedig o ran rhoi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau'r ymgynghoriad ac adrodd arnynt.
- Swyddogion allweddol a chanddynt sgiliau hwyluso.
- Arbenigwyr ar gydraddoldeb – er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cyfrifyddion.

Roedd y grŵp prosiect yn adrodd ar ei gynnydd yn gyfnodol i'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol. Roedd hyn yn sicrhau bod pob un o chwe chyfarwyddiaeth y Cyngor yn ymwybodol o'r prosiect, ac yn golygu y gellid arfer dull o orfodi'n gorfforaethol.

Wrth bennu'r gynulleidfa ar gyfer yr ymarfer ymgynghori, roedd y Cyngor o'r farn bod gan holl drigolion Sir Gaerfyrddin – gan eu bod yn talu'r dreth gyngor – ddiddordeb yng nghyllideb y Cyngor. Fel y cyfryw, rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar y gyllideb trwy Newyddion Sir Gâr, sef cyhoeddiad a gynhyrchir gan y Cyngor a'i bartneriaid, ac a ddosberthir i bob aelwyd. Roedd yr erthygl yn cyfeirio darllenwyr at yr arolwg ymgynghori ar y gyllideb ar wefan y Cyngor, ac roedd yn cynnwys taflen radbost ar gyfer awgrymiadau ynglŷn ag arbed arian neu gynhyrchu incwm.

Gan gydnabod y perygl na fyddai barn pob rhan o'r gymuned yn cael ei hystyried yn briodol, o bosibl, cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys

---

cynrychiolwyr o Gydraddoldeb Sir Gaerfyrddin (grŵp ambarél o grwpiau amrywiaeth, yn cynnwys y Cyngor Ieuencid, y Fforwm 50+, y Gynghrair Anabledd, y Rhwydwaith Amlddiwylliannol, ac ati), ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys busnesau a chynghorwyr tref a chymuned.

Yn ogystal, roedd arolwg yr ymgynghoriad (y rhoddwyd cyhoedduswydd iddo trwy'r cyfryngau) yn cynnwys ystod o gwestiynau proffilio demograffig. Roedd y rhain yn caniatáu i'r canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau gael eu dadansoddi a'u cyflwyno ar wahân i'r prif ffigur 'pennawd' (gweler isod hefyd).

O ran arolwg yr ymgynghoriad ar y gyllideb, cafodd nifer o gwestiynau demograffig yn ymwneud ag oedran, rhyw, ethnigrwydd, crefydd, rhywioldeb a statws partneriaeth eu cynnwys fel y gellid rhannu'r ymatebion yn ôl newidyn demograffig er mwyn cymharu â'r sampl gyffredinol. Gofynnodd yr arolwg hefyd am sylwadau ar unrhyw effaith andwyol ar bobl neu gymunedau, a sylwadau ar sut y gallai unrhyw effeithiau a nodwyd gael eu lliniaru.

Roedd y digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid hefyd wedi'i gynllunio i sicrhau trawstoriad eang o safbwyntiau, ac i ddarparu 'rheolydd' ar gyfer ystyried canlyniad yr arolwg cyffredinol (o ystyried y gallai canlyniadau'r arolwg gael eu dylanwadu gan safbwyntiau 'lleiafrifoedd croch' mewn perthynas â chynigion penodol). Datblygwyd y dull cyffredinol ar gyfer yr ymgynghoriad gan roi sylw gofalus i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gan ddefnyddio llyfrgelloedd y Cyngor, cynhaliwyd sioeau teithiol hefyd ar ddiwedd mis Tachwedd 2013 hyd at ddechrau mis Rhagfyr 2013, i ddangos bod y Cyngor yn barod i wrando, codi ymwybyddiaeth ymhlith trigolion ynglŷn â sefyllfa ariannol y Cyngor, ceisio adborth a hybu proses agored o wneud penderfyniadau. Mynychwyd y rhain gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol, ynghyd â chydweithwyr cyllid a pholisi. Paratowyd byrddau gwybodaeth a oedd yn cyflwyno gwybodaeth am adrannau'r cyngor a meysydd ar gyfer arbedion posibl. Cynhaliwyd trafodaethau ag aelodau'r cyhoedd â diddordeb a chofnodwyd sylwadau. Roedd y presenoldeb yn amrywio ar draws y lleoliadau a ddewiswyd.

Roedd y sioeau teithiol yn lled-strwythuredig er mwyn darparu ar gyfer ystod o grwpiau demograffig. Gallai'r mynychwyr gael cymorth i gwblhau'r arolwg (gan ddefnyddio'r cyfrifiaduron yn y llyfrgell), gofyn cwestiynau, cyflwyno eu hawgrymiadau eu hunain ar gyfer arbed arian neu bwysu a mesur gwybodaeth am gyllideb y Cyngor. Roedd dogfennau allweddol, gan gynnwys Crynhoad Cyllideb, adroddiad ategol ar y gyllideb a chopïau caled o arolwg y gyllideb, ar gael wrth law. Yn ogystal, rhoddwyd 'cardiau post' A5, a oedd yn cynnwys gwybodaeth gryno am sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, i'r holl fynychwyr. Gadawyd copïau dros ben mewn Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid. Roedd cod QR wedi'i nodi ar bob cerdyn post, a oedd yn darparu mynediad uniongyrchol at yr arolwg ar-lein trwy ddefnyddio ffôn clyfar.

Un rhywstr y daethpwyd ar ei draws oedd graddau awydd y cyhoedd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Aethpwyd i'r afael â hyn trwy ddefnyddio cymysgedd o ddulliau – gan gynnwys cynnal sioeau teithiol mewn cymunedau yn agosach at ble'r oedd pobl yn byw – a chyhoedduswyd.

Mater arall i'w ystyried oedd sicrhau bod gwybodaeth am gynigion ar gyfer arbedion yn ddigon ystyrion i alluogi'r cyhoedd i wneud sylwadau craff. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu sicrhau bod yr iaith yn ddealladwy, ac mewn eraill, esbonio agwedd ariannol y cynnig.

Yng nghyd-destun ymarferion yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn gobeithio gwneud mwy i sicrhau bod gwybodaeth am gynigion yn gwbl hygyrch, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, fersiynau hawdd eu darllen a fersiynau sy'n addas i bobl ifanc. Rhoddir mwy o ystyriaeth i gynyddu'r gyfradd gyfranogi, gan fod hyn yn sail i'r pwysigrwydd y gellir ei roi i'r canlyniadau.



---

Yr adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad oedd y prif destun trafod yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol i ystyried y gyllideb. Barn gyffredinol yr aelodau oedd bod yr adroddiad yn offeryn defnyddiol iawn o ran cynorthwyo'r drafodaeth, gan ei fod wedi'i gyflwyno'n eglur ac yn gynhwysfawr iawn. Ar ôl ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad, gwrthodwyd neu addaswyd chwe chynnig, sef: ysgolion enwadol, cludiant ôl-16, patrolau croesfannau ysgolion, amddiffynfeydd rhag llifogydd, parcio mewn gweithleoedd a chanolfannau seibiant.

Cynhyrchwyd adroddiad cryno cynhwysfawr ar yr ymgynghoriad ar gyfer cynghorwyr a'r cyhoedd. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth gryno trwy erthygl dwy dudalen yn Newyddion Sir Gâr.

Darparwyd gwybodaeth drylwyr i'r adrannau a'r swyddogion perthnasol mewn perthynas â phob cynnig. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys yr holl ddata ansoddol perthnasol (h.y. sylwadau penodol ar y cynnig neu'r maes gwasanaeth).

Mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu'r dull hwn yng nghyd-destun y trefniadau ar gyfer ei ymgynghoriad ar gyllideb 2015/16. Roedd y broses o amlygu cynigion arbedion effeithlonrwydd ar gyfer yr ymgynghoriad ar y gyllideb yn un fewnol yn bennaf. I fynd i'r afael â hyn, maent yn paratoi cynlluniau ar gyfer ymgynghoriad 'cam un' a 'cham dau' ar gyfer y cylch cyllideb sydd i ddod. Bydd cam un, sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai-Gorffennaf 2014, yn cynnwys hyrwyddo a defnyddio efelychydd cyllideb – YouChoose – i hwyluso Cyllidebu ar sail Blaenoriaeth, trwy amlygu blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer arbedion. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu cynigion ar gyfer arbedion yn unol â blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer arbedion, y gellir ymgynghori arnynt trwy gam dau'r ymgynghoriad. Yn y modd hwn, gellir gwneud y broses yn un sy'n cael ei harwain yn fwy gan ddinasyddion.

---

### **Arweinyddiaeth gymunedol**

Mae gan y sector gwirfoddol, cymunedol a ffydd gysylltiadau agos â'r cyhoedd. Gall cynnwys eiriolwyr cymunedol mewn gwaith craffu gefnogi a chryfhau rôl arweinyddiaeth gymunedol cynghorwyr, a gall arbenigedd penodol cynrychiolwyr y sector gwirfoddol, cymunedol a ffydd fod yn werthfawr iawn.

### **Cyfethol**

Gall cyfethol cynrychiolwyr a chanddynt wybodaeth a sgiliau ariannol, neu wybodaeth a sgiliau perthnasol eraill, ychwanegu arbenigedd, gan roi llais i gyrff allanol a gwella canfyddiad y cyhoedd o effeithiolrwydd craffu.

### **Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb**

Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yw'r broses o asesu effaith polisiau ac arferion (neu swyddogaethau) presennol neu arfaethedig mewn perthynas â'u canlyniadau ar gyfer cydraddoldeb. Mae cynigion ar gyfer y gyllideb yn gallu effeithio ar gydraddoldeb, mewn ffyrdd nas bwriedir, efallai, felly mae'n bwysig bod craffu'n gofyn cwestiynau am effaith a thegwch penderfyniadau.

### **Ymgysylltu â'r gymuned fusnes**

Mae angen i gynghorau, cyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus a busnesau gydweithio i gefnogi datblygiad economaidd, adfywio a chyfleoedd cyflogaeth. Nod adroddiad 'Agents of growth' (2014) Grant Thornton yw helpu cynghorau, yn arbennig, i gynyddu eu dealltwriaeth o anghenion busnesau canolig eu maint a

---

thargeddu adnoddau mewn ymateb, gan gyfateb hynny â'u strategaethau cyffredinol ar gyfer adfywio economaidd a sbarduno twf busnes.

O ystyried ei gylch gorchwyl ar gyfer materion sy'n effeithio ar ardal y cyngor neu ei drigolion, mae gan graffu swyddogaeth bwysig i'w chyflawni wrth ymgysylltu â'r gymuned fusnes leol, megis ymgynghori'n ffurfiol â chyrff sy'n cynrychioli busnesau lleol e.e. siambr fasnach, yn ystod y cylch cynllunio ariannol.


### **Pa mor agored yw'ch prosesau cynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau?**

Mae cyhoeddiad y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, sef 'Accountability works for you' (Mehefin 2012), yn cynnig methodoleg ar gyfer gwerthuso a gwella trefniadau llywodraethu y gellid ei chymhwyso i brofi a yw cynllunio ariannol a phenderfyniadau'n cyflawni nodau atebolrwydd, tryloywder a chynhwysiant.

Yn arbennig, dylai cynghorau ofyn y canlynol i'w hunain:

- A yw'r meini prawf ar gyfer gosod eitemau ar flaengynllun ar gyfer penderfyniadau pwysig yn adlewyrchu buddiannau a phryderon defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd?
- Sut mae'r broses benderfynu'n cael ei gwneud yn hygyrch i'r cyhoedd?
- Sut gall y rhai nad ydynt yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ddylanwadu ar gynllunio busnes?
- Sut mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried safbwyntiau'r cyhoedd?

Mae'r fethodoleg yn cynnwys sefydlu grŵp prosiect a chynnal gwerthusiad lefel uchel i amlygu meysydd i'w dadansoddi'n fanylach, gan arwain at gynllun gweithredu. Mae cynghorau sy'n defnyddio'r fethodoleg hon yn debygol o gael mwy o fudd ohoni trwy ddefnyddio rhywfaint o gyfraniad allanol, gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus neu ymgynghorwyr eraill.



# Atodiad A: Awgrymiadau da ar gyfer craffu ariannol effeithiol

Gan ddefnyddio themâu'r nodweddion craffu a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru, rhoddir isod rai egwyddorion ar gyfer craffu ariannol effeithiol.

## Yr Amgylchedd

Mae cynghorau o'r farn bod craffu ar gyllid yn un o hawliau democrataidd sylfaenol cynghorwyr anweithredol, ac mae blaenraglenni gwaith a'r adnoddau a ddyrennir i gefnogi craffu yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel a roddir i graffu ariannol gan gynghorau.

Mae Cadeiryddion Craffu a chynghorwyr anweithredol yn hyderus wrth gynllunio eu dulliau eu hunain o fynd i'r afael â gwahanol rolau craffu ar gyllid, ac fe'u cefnogir yn rhagweithiol i wneud hynny gan swyddogion gweithredol a thimau rheolaeth gorfforaethol.

Gall cynghorwyr ofyn am wybodaeth ariannol mewn amrywiaeth o fformatau yn unol â'u hanghenion, ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn herio gwybodaeth nad yw'n bodloni eu disgwyliadau.

## Arferion/Ymddygiad

Mae cynghorwyr anweithredol o'r un grŵp gwleidyddol â'r weinyddiaeth yn dangos annibyniaeth ddeallusol yn eu rôl ac nid ydynt yn gorsymleiddio cwestiynau neu argymhellion i'r cabinet.

Mae swyddogion gweithredol a thimau rheolaeth gorfforaethol o'r farn bod rôl craffu o ran herio ariannol yn ddull pwysig o wirio a chydbwysu cynlluniau gwario a pherfformiad, ac maent yn cychwyn ymgysylltiad cynnar â phrosesau'r cyngor ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig a gosod y gyllideb flynyddol.

Caiff rhaglenni hyfforddiant a datblygiad eu llywio gan ddadansoddiad blynyddol o anghenion a gynhelir ar draws y cyngor er mwyn sefydlu lefelau sylfaenol o ddealltwriaeth o gyllid llywodraeth leol, ac maent yn ychwanegu'n gynyddrannol at brofiad er mwyn cryfhau hyder a pherfformiad.

## Effaith

Mae gweithgareddau datblygiad a hyfforddiant yn gwahaniaethu rhwng y wybodaeth sydd ei hangen ar gynghorwyr i ymgymryd â'u rôl craffu ariannol a'r sgiliau sydd eu hangen ar gynghorwyr i gymhwyso eu gwybodaeth fel bod craffu'n arwain at effaith gadarnhaol.

Gan fod y cysylltiad rhwng gwario, perfformiad a gwerth yn cael ei gydnabod a'i adolygu drwy gydol y flwyddyn, gall craffu ddangos ei fod yn ychwanegu gwerth at lywodraethu corfforaethol.

Mae trefniadau cynghorau ar gyfer gosod y gyllideb a rheolaeth ariannol yn dryloyw, ac mae cynghorwyr a'r cyhoedd yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau'r weithrediaeth ynglŷn â blaenoriaethau gwario yn seiliedig ar dystiolaeth o effaith a gwerth.


## Atodiad B: Rhestr wirio holi effeithiol

---

- Faint bydd hynny'n ei gostio?
- A ydych chi'n sicr mai'r gost fydd y swm a nodir yma?
- Ai'r gost ar gyfer eleni yn unig yw hyn, neu a yw'n barhaus?
- A yw hyn yn ofyniad statudol?
- Beth fydd yn digwydd os na chaiff hyn ei ariannu?
- Beth fyddai canlyniadau cyllido rhannol yn unig?
- A oes cyllid allanol ar gael i gyfrannu at y gost?
- A allem ni godi tâl am hyn?
- Pryd byddwn ni'n gweld budd o'r gwario hwn?
- A ellir gohirio hyn?
- Ble mae'r achos busnes?
- Beth gellir ei ddefnyddio i fesur ei lwyddiant?
- A allwn ni gynyddu incwm o asedau?
- A yw'r cyllid hwn wedi'i ymrwymo trwy gontract?
- Pam mae ein balansau wedi'u gosod ar y lefel hon?

### ...a chwestiynau manylach

- Sut bydd y gyllideb yn adlewyrchu buddsoddiadau sydd â'r nod o gyflawni arbedion tymor hwy – 'buddsoddi i arbed'?
- Pa ystyriaeth a roddwyd i sicrhau'r incwm mwyaf posibl (lle y bo'n briodol ac yn deg) – e.e. incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau ac ati?
- Sut mae'r gweithlu'n cael ei gynllunio a'i reoli er mwyn sicrhau bod ystyriaethau'r farchnad yn cael eu cadw mewn cof wrth benderfynu ar raddfeydd cyflog?
- Beth yw effaith ddisgwyliedig targedau effeithlonrwydd ar y gyllideb, a sut mae'r cyngor yn cynllunio at y dyfodol i ymdrin ag effeithiau cronol targedau effeithlonrwydd?
- Beth yw effaith ddisgwyliedig pwysau cyllidebol ar:
  - Wasanaethau
  - Perfformiad (gan gynnwys dangosyddion perfformiad a safonau)
  - Cleientiaid/defnyddwyr gwasanaeth



- 
- Partneriaethau a gweithio ar y cyd
  - Lefelau staffio
  - Gwerthuso swyddi
  - I ba raddau mae cydymffurfio â gofynion arolygu allanol yn effeithio ar gyllidebau a gwario?
  - Pa ddewisiadau oedd ar gael i chi pan oeddech chi'n gosod eich targedau ar gyfer y gyllideb?
  - Sut daethpwyd i benderfyniadau rhwng gwahanol ddewisiadau?
  - Sut mae eich targedau ar gyfer y gyllideb yn cyfrannu at gyflawni:
    - blaenoriaethau corfforaethol
    - targedau e-lywodraeth?
  - A oes cyfyngiad amser yn berthnasol i'r cyllid allanol hwn – os oes, a oes gennym ni strategaeth ymadael?
  - A ydym ni'n gwneud defnydd llawn o bwerau masnachu a chodi tâl a benthycu darbodus?
  - Sut gellir cynyddu ein hincwm mewn ffordd gynaliadwy?
  - Faint o'n cyllideb sy'n sefydlog – beth sydd gennym ni ddisgresiwn yn ei gylch?
  - A allwch chi egluro sut mae gosod y gyllideb yn gysylltiedig â chynllunio ariannol tymor canolig?
  - Sut ydym ni'n defnyddio'r cynllun ariannol tymor canolig i benderfynu ar ddyrannu adnoddau i flaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth?
  - A yw goblygiadau ariannol cynigion gan adrannau a gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn y gyllideb gyffredinol?
  - A yw'r lefel cronfeydd wrth gefn yn briodol, a beth yw'r rhesymeg wrth wraidd y lefel honno?

## Atodiad C: Awgrymiadau da ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ariannol

---

- tablau crynhoi yn hytrach na gwybodaeth hirfaith
- gwybodaeth gyd-destunol
- adroddiadau eithrio
- fformat safonedig ar gyfer adroddiadau ariannol pob deiliad portffolio, yn cynnwys crynodeb ar ffurf graff, gan ddefnyddio system goleuadau traffig i amlygu materion allweddol
- cyflwyno gwybodaeth am fonitro'r gyllideb ochr yn ochr ag adroddiadau monitro cynlluniau gwasanaeth a dangosyddion perfformiad, efallai ar-lein neu drwy neges e-bost
- crynodeb o'r llyfr amcangyfrifon y gyllideb ar gyfer y cyhoedd a chynghorwyr – wedi'i lunio mewn iaith blaen ac ar gael ar ffurf copi caled neu ar-lein
- cytundeb rhwng y cabinet a chraffu ynglŷn ag amseriad papurau, fel bod digon o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer craffu a herio effeithiol, a osodir mewn amserlen neu brotocol mwy ffurfiol sydd hefyd yn cadarnhau pa wybodaeth y dylai craffu ddisgwyl ei derbyn
- gwirio adroddiadau o ran gordddefnydd o jargon a themau ariannol technegol – lle nad oes modd osgoi'r rhain, dylid eu diffinio'n eglur mewn iaith blaen
- cynnal arolwg ymhlith cynghorwyr i weld a yw'r wybodaeth ariannol a gânt yn ddigonol, yn hygyrch ac yn amserol
- hyfforddiant penodol ar gyllid llywodraeth leol fel rhan o'r broses sefydlu a hyfforddiant parhaus

## Atodiad D: Beth i chwilio amdano wrth adolygu gwybodaeth ariannol

---

Enghraifft yn unig yw'r canlynol, ond mae'n nodweddiadol o sut y caiff adroddiadau ar y gyllideb eu cyflwyno mewn adroddiadau cyllid cynghorau.

Rydym ni wedi ychwanegu rhai esboniadau ac awgrymiadau ynglŷn â llinellau holi y gallai craffu eu hystyried.

Caiff y gyllideb flynyddol ei diwygio'n aml yn ystod y flwyddyn wrth i amgylchiadau newid.

Amcangyfrif y Cyfarwyddwr Cyllid o ganlyniadau diwedd y flwyddyn.

? Pa mor ddibynadwy yw'r rhagfynegiadau hyn?

? Pa dybiaethau maen nhw wedi'u seilio arnynt?

? Pa ffactorau allai gael effaith andwyol ar y tybiaethau hyn?

### Monitro'r Gyllideb Refeniw

Cyfarwyddiaethau	Cyllideb Ddiwygiedig	Alldro Rhagamcanol	Gorwariant / Tanwariant Rhagamcanol	Percentage (%)
Addysg	75,000	75,500	500	1%
Gofal Cymdeithasol	75,000	79,500	4,500	6%
Cyfrif Refeniw Tai	(5,000)	(8,000)	(3,000)	60%
Tai – Arall	2,000	1,800	(200)	-10%
Priffyrdd a Thrafnidiaeth	12,000	11,250	(750)	-6%
Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig	6,000	6,200	200	3%
Gwasanaethau Cynllunio	2,500	2,300	(200)	-8%
Gwasanaethau Amgylcheddol	12,500	12,250	(250)	-2%
Corfforaethol a Democraidaidd	2,500	2,500	0	0%
Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd	1,000	950	(50)	-5%
Cyfanswm Cyfarwyddiaethau	183,500	184,250	750	0%
Ardollau	5,000	5,000	0	0%
Incwm buddsoddi (net)	(1,000)	(1,500)	(500)	50%
Costau Cyllido Cyfalaf	7,500	7,000	(500)	-7%
<b>CYFANSWM</b>	<b>195,000</b>	<b>194,750</b>	<b>(250)</b>	<b>0%</b>
<b>Dadansoddiad o amrywiant:</b>	<b>Y Gronfa Gyffredinol</b>	<b>2,750</b>		
	<b>Y Cyfrif Refeniw Tai</b>	<b>(3,000)</b>		

? Pam mae rhai gwasanaethau'n gorwario tra bod eraill yn tanwario?

? A yw o ganlyniad i gyllidebu gwael, galw uchel, costau annisgwyl?

? Pa gamau sy'n cael eu cymryd i unioni'r sefyllfa?

? A oes tuddiadau sy'n dod i'r amlwg y mae angen i ni bryderu amdanynt?

? Pa dybiaethau maen nhw wedi'u seilio arnynt?

? Pa ffactorau allai gael effaith andwyol ar y tybiaethau hyn?

Y Gronfa Gyffredinol yw'r brif gronfa refeniw a ddefnyddir i dalu am Gost Gwasanaethau.

Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer stoc tai cymdeithasol y cyngor. Mae llawer o gynghorau wedi trosglwyddo eu tai i Gymdeithasau Tai, felly nid oes ganddynt y cyfrif hwn mwyach.

Mae'r sefyllfa gyffredinol yn edrych fel tanwariant yn yr achos hwn, ond mae'n rhaid i'r Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai gael eu trin ar wahân gan fod yr olaf wedi'i neilltuo.

Mae cyllidebau'r Gronfa Gyffredinol wedi gorwario, yn bennaf ar ofal cymdeithasol, a wrthbyswyd i ryw raddau gan danwariant cyllidebau eraill.

Cronfeydd wrth gefn a ddygir ymlaen o un flwyddyn i'r nesaf ac sydd ar gael i'w defnyddio os bydd angen. Fel arfer, bydd gan gynghorau 'gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi' ochr yn ochr â balans y Gronfa Gyffredinol.

Mae gorwariant disgwylidig y Gronfa Gyffredinol yn lleihau cronfeydd wrth gefn i lefel nad yw'n ymddangos yn gynaliadwy.

**?**  
Beth yw cynlluniau'r cyngor i ymdrin â hyn?

**?**  
Pa mor gadarn ydynt?

### Balansau

Cyllideb Net Wreiddiol y Gronfa Gyffredinol	199,500
Newidiadau i'r gyllideb a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn	500
Cyllideb Net Ddiwygiedig y Gronfa Gyffredinol	200,000
<hr/>	
Balans y Gronfa Gyffredinol 31-3-13	(3,500)
Amrywiant Rhagamcanol y Gronfa Gyffredinol 2013/14	2,750
<b>Balans Rhagamcanol y Gronfa Gyffredinol 31-3-14</b>	<b>(750)</b>
<hr/>	
Cyllideb Net Wreiddiol y Cyfrif Refeniw Tai	(4,000)
Newidiadau i'r gyllideb a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn	(1,000)
Cyllideb Net Ddiwygiedig y Cyfrif Refeniw Tai	(5,000)
<hr/>	
Balans y Cyfrif Refeniw Tai 31-3-13	(6,000)
Gwarged a Gynlluniwyd ar gyfer 2013-14	(5,000)
Amrywiant Rhagamcanol y Cyfrif Refeniw Tai 2013/14	(3,000)
<b>Balans Rhagamcanol y Cyfrif Refeniw Tai 31-3-14</b>	<b>(14,000)</b>

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cronni cronfeydd wrth gefn iach o ganlyniad i wargedau blynyddol.

**?**  
A yw hyn yn ddamweiniol ynteu'n fwriadol?

**?**  
Beth yw cynlluniau'r cyngor ar gyfer y balans hwn?

### Dangosyddion Perfformiad Allweddol (Dethol) – Gofal Cymdeithasol

	Target	Actual
Canran yr atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn 1 diwrnod gwaith.	95%	75%
Canran yr ailatgyfeiriadau o fewn 12 mis.	25%	40%
Canran yr adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, a phlant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a Phlant Mewn Angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol.	90%	67%
Canran yr absenoldeb tymor byr oherwydd salwch.	2.5%	7.5%

Mae cyllidebau gofal cymdeithasol yn gorwario, ond nid yw'r gwasanaeth yn cyflawni dangosyddion allweddol.

**?**  
Pam mae gofal cymdeithasol yn gorwario ond heb fod yn cyflawni?

**?**  
Beth allwn ni ei ddysgu gan awdurdodau eraill?

**?**  
A yw'r ddau fater yn awgrymu bod problem ddyfnach?



# Atodiad E: Hyfforddi cyngorwyr ac asesu anghenion – arolwg enghreifftiol Cyngor Caerdydd

---

## C1. Sawl blwyddyn o brofiad sydd gennych chi mewn craffu ar y gyllideb?

- Dim profiad
- 1-2 flynedd
- Mwy na 2 flynedd

## C2. Sut cawsoch chi eich gwybodaeth a'ch sgiliau presennol mewn perthynas â chraffu ar y gyllideb? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- Profiad personol
- Darllen amdano a/neu ddysgu anffurfiol
- Profiad fel aelod o Bwyllgor Craffu
- Hyfforddiant strwythuredig ar 'Graffu ar y Gyllideb' a drefnwyd gan y Gwasanaethau Craffu
- Hyfforddiant a ddarparwyd yn allanol (na chafodd ei ddarparu/noddi gan y Cyngor)
- Hyfforddiant a chymwysterau academiaidd a phroffesiynol
- Arall (nodwch)

## C3. Ceir isod restr o'r tasgau allweddol sy'n ymwneud â Chraffu ar y Gyllideb. Sut byddech chi'n graddio'ch galluoedd/gallu i gyflawni'r tasgau hyn yn effeithiol?

Gan ddefnyddio'r raddfa ganlynol ar gyfer pob tasg (Heb eu datblygu/Angen mwy o ddatblygiad/cymwys/cymwys iawn/eithriadol)

- Adolygu effeithiolrwydd y broses o osod y gyllideb
- Adolygu lefel 'ymgysylltiad dinasyddion' â'r broses
- Herio sut mae cynigion ar gyfer y gyllideb yn cysoni ac yn integreiddio â blaenoriaethau corfforaethol, cynlluniau gwasanaeth ac amcanion perfformiad y Cyngor
- Adolygu a herio sut y caiff adnoddau eu dyrannu, gan fonitro eu defnydd a'u heffaith
- Herio a yw dyraniadau'r gyllideb yn cyflawni gwerth am arian
- Adolygu cyllidebau a threfniadau rheolaeth gyllidebol partneriaethau y mae'r Cyngor yn gysylltiedig â hwy
- Herio'r defnydd o ddulliau eraill o ddarparu gwasanaethau
- Adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolog yn erbyn pwysau ariannol tymor hir megis y newid yn yr hinsawdd, poblogaeth sy'n heneiddio neu reoli gwastraff, ac ati
- Adolygu ac asesu dulliau a chynlluniau i ymateb i'r pwysau hyn
- Adolygu a monitro cynllun rheoli asedau a strategaeth buddsoddi cyfalaf y Cyngor

---

**C4. Ceir isod restr o rai o'r setiau gwybodaeth a data y mae eu hangen ar aelodau i'w galluogi i graffu ar y gyllideb yn effeithiol. Sut byddech chi'n graddio'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth bresennol ynglŷn â'r setiau gwybodaeth a data hyn?**

Defnyddiwch y raddfa ganlynol (Dim gwybodaeth/gwael iawn/gwael/cymedrig neu gyffredin/da iawn/rhagorol)

- Cynllun Corfforaethol y Cyngor a chynlluniau darparu ar gyfer portffolio'r Cabinet
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'r pwysau ariannol tymor hir cysylltiedig
- Adroddiad Strategaeth Gyllidebol y Cyngor
- Prosesau rheolaeth ariannol y Cyngor, sut mae cyllideb y Cyngor yn cael ei strwythuro, yr ysgogwyr allweddol ar gyfer y broses a'r strategaeth
- Asesiadau o effaith, risgiau a chyflawnadwyedd y gyllideb, e.e. asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a strategaethau lliniaru
- Perfformiad ariannol maes gwasanaeth o ran mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau
- Gwybodaeth gymharol am wariant ac arbedion cyllidebol awdurdodau lleol eraill a'u hallbynnau a chanlyniadau
- Arfer gorau o ran yr ymagweddau a'r dulliau ar gyfer cynnal craffu ariannol


**C5. Ceir isod restr o rai o'r setiau sgiliau neu gymwyseddau cyffredinol sydd eu hangen i graffu ar y gyllideb yn effeithiol. Sut byddech chi'n graddio'ch sgiliau a'ch cymwyseddau i ymgymryd â'r tasgau canlynol?**

- Deall ac arfarnu gwybodaeth feintiol gymhleth megis cyfrifon ariannol, adroddiadau cyllidebol, dangosyddion perfformiad, ystadegau poblogaeth, ac ati
- Defnyddio tystiolaeth ansoddol wrth werthuso gwybodaeth am berfformiad
- Defnyddio offer a thechnegau allweddol i werthuso 'gwerth am arian'
- Defnyddio sgiliau holi neu herio – technegau i gael gwybodaeth gan dystion
- Cyfathrebu'n eglur ac yn effeithiol â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill

**C6. A fyddech chi'n elwa ar y mathau canlynol o gymorth y gellid eu darparu gan y tîm craffu yn ystod y broses craffu ar y gyllideb?**

Dewiswch o blith un o'r canlynol ar gyfer pob eitem a restrir (Ddim o gwbl/Fwy na thebyg ddim/Fwy na thebyg/Tebygol/Tebygol iawn/Yn sicr)

- Trefnu hyfforddiant strwythuredig i'r aelodau ar wybodaeth a sgiliau Craffu ar y Gyllideb
- Arweiniad a chyngor ar amryw ymagweddau a dulliau ar gyfer craffu ar y gyllideb
- Amlygu meysydd blaenoriaeth a phwyslais wrth graffu ar y gyllideb
- Datblygu llinellau ymholi gyda Chadeiryddion a holl aelodau'r Pwyllgor
- Cymorth un i un gyda phob aelod o'r pwyllgor i egluro materion



- Cyfarfod o flaen llaw â holl aelodau'r Pwyllgor i drafod y pwyslais a'r drefn ar gyfer holi
- Ymgysylltu ac ymchwilio â'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â materion cyllidebol
- Adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y broses Craffu ar y Gyllideb

**C7. Beth yw'r heriau a fyddai'n eich rhwystro rhag craffu ar y gyllideb yn effeithiol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol:**

- Hygyrchedd dogfennau a gwybodaeth ariannol
- Trefn, hyd a graddfa amser y broses craffu ar y gyllideb, e.e. digon o amser i graffu ar y gyllideb yn briodol
- I ba raddau y mae swyddog Craffu penodol ar gael i gefnogi'r broses craffu ar y gyllideb
- Ymgysylltiad a chymorth swyddogion eraill y Cyngor yn ystod y broses craffu ar y gyllideb
- I ba raddau y mae safbwyntiau'r cyhoedd, sefydliadau gwirfoddol a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â chynigion ar gyfer y gyllideb a materion cysylltiedig ar gael, a mynediad at y safbwyntiau hynny
- Mynediad at wybodaeth feincnodi am gyllidebau a gwybodaeth gysylltiedig am berfformiad awdurdodau lleol eraill
- Fy sgiliau a'm galluoedd presennol i graffu ar y gyllideb
- Fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth ynglŷn â'r broses craffu ar y gyllideb
- Fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth ynglŷn â phrosesau rheolaeth ariannol y Cyngor a gwybodaeth gorfforaethol berthnasol
- Arall (nodwch)

**C8. Gallai hyfforddiant gael ei ddarparu i holl aelodau'r Pwyllgor ar ystod o feysydd pwnc ym mis Rhagfyr 20xx neu fis Ionawr 20xy. Pa fis fyddai'n gweddu orau i'ch amserlen chi?**

- Rhagfyr 20xx
- Ionawr 20xy
- Mae'r ddau fis yn gyfleus
- Nid yw'r naill ddyddiad na'r llall yn gyfleus

**C9. Pa adeg o'r dydd fyddai'n fwyaf cyfleus er mwyn i chi gymryd rhan mewn hyfforddiant ar graffu ar y gyllideb? Ticiwch bob un sy'n berthnasol:**


- Yn gynnar yn y bore 8 – 9.30am
- Bore 9 – 12pm
- Yn gynnar yn y prynhawn 1- 3pm

- 
- Yn hwyr yn y prynhawn 3-6pm
  - Yn gynnar gyda'r nos 4- 7pm
  - Arall (nodwch)

**C10. Pa ddull/ymagwedd sydd orau gennych chi ar gyfer darparu sesiynau hyfforddiant craffu ar y gyllideb?**

- Seminarau neu weithdai rhyngweithiol mewn grwpiau bach
- Sesiynau hyfforddi neu fentora un i un
- Dull “Dysgu o Bell” – modiwlau ar-lein, tiwtorialau, cymorth, adnoddau argraffedig
- Gweithdai chwarae rôl neu efelychu
- Arall (nodwch)

**C11. Pa bwyllgor craffu ydych chi'n ei gynrychioli?**



Canolfan Craffu Cyhoeddus (2008)

**small print BIG PICTURE**

Canolfan Craffu Cyhoeddus (2011)

**2il Argraffiad On the Money – the scrutiny of local government finance**

Canolfan Craffu Cyhoeddus (2012)

**Accountability works for you**

Comisiwn Cynghorwyr (2007)

**Representing the Future – the report of the Councillors Commission, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, y Goron**

Comisiwn Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Ionawr 2014)

**Summary Report**

Grant Thornton LLP (y DU) (2014)

**Local Government Governance Review: Working in Tandem**

Grant Thornton LLP (y DU) (2014)

**Responding to the Challenge: Alternative delivery models in local government**

Grant Thornton LLP (y DU) (2014)

**Agents of Growth: the power of mid-sized businesses**

Grant Thornton LLP (y DU) (2013)

**2016 Tipping Point? Challenging the current: Summary findings from our third year of financial health checks of English local authorities**

Grant Thornton LLP (y DU) (2012)

**Towards a Tipping Point: Summary findings from our second year of financial health checks of English local authorities**

Llywodraeth Cymru (2012)

**Canllawiau Statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011**

Pwyllgor Archwilio (2012)

**Striking a balance: Improving council's decision making on reserves**

Pwyllgor Archwilio (2011)

**Tough times: Councils' responses to a challenging financial climate**

Quirk, B (2014)

**The Civic Square and the Public Triangle, Sefydliad ar gyfer Llywodraeth**

Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd (2013)

**Future Councillors - Where next for local politics? NLGN, Llundain**

Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (2013)

**Scenarios for the Welsh Government budget to 2025-26 IFS, Llundain**

Swyddfa Archwilio Cymru (2014)

**Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Rhagor o wybodaeth a chymorth

---

- [www.cfps.org.uk](http://www.cfps.org.uk)
- [www.grant-thornton.co.uk/en/Sectors/Government--Public-Sector/](http://www.grant-thornton.co.uk/en/Sectors/Government--Public-Sector/)
- Rebecca David-Knight,  
Rheolwr Rhaglen Craffu Cymru,  
Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus,  
15fed Llawr,  
Tŷ Brunel,  
2 Heol Fitzalan,  
Caerdydd CF24 0UY  
Rhif ffôn: 029 2032 9190  
Rhif ffôn symudol: 07879 443410  
e-bost: [Rebecca.david-knight@cfps.org.uk](mailto:Rebecca.david-knight@cfps.org.uk)
- Centre for Public Scrutiny / Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus  
Local Government House / Tŷ Llywodraeth Leol  
Smith Square / Sgŵar Smith  
London / Llundain  
SW1P 3HZ  
Rhif ffôn. 020 7187 7362  
e-bost: [info@cfps.org.uk](mailto:info@cfps.org.uk)



---

The Centre for Public Scrutiny  
Local Government House  
Smith Square  
London SW1P 3HZ

44 (0) 20 7187 7362

CiPS is a registered charity no 1136243

June 2014

 [www.cfps.org.uk](http://www.cfps.org.uk)